Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 8. Rhif 11.] TACHWEDD, 1908. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Ar Edyn Ffydd.
Nodion y Mis.
Oddiar y Twr.
Adsain yr holi ar y Van.
Llythyr y Cranc.
Ymgom ar Aelwyd Cnwcyrhwrdd.
Fair Wythnos gyda'r Van.
Parch. D. G. Rees, Penybont-ar-Ogwy.
Sosialaeth.
Y Cyfarfodydd Chwarterol.
Marwgofion.
Manion ac Hanesion.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD

Golygwyr—

T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul, a SARNICOL, County School, Abertillery.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s 6d y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidrrul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau.

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygwyr erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed. Gyrer y Farddoniaeth i Sarnicol, County School Abertillery, Mon.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

SIXPENNY EDITIONS

OF

Allen Raine's Novels

May be obtained of

J. D. LEWIS, GOMERIAN PRESS, LLANDYSSUL.

GWELLIANT GWALL.—Llythyr y Cranc, tud. 251, ail gelofn, 5ed a'r 6fed llinell o'r gwaelod, yn lle "am nad ydynt yn talu am danynt," darllener "am nad ydynt yn werth talu am danynt."

ROBIN THE NEW STARCH

Reckitt's Blue.

ZEBRA GRATE POLISH.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

" *Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda.*"—*Paul.*

CYFRES NEWYDD.] TACHWEDD, 1908. [CYF. VIII. RHIF 11.

AR EDYN FFYDD.

ANERCH A BENDITH OLAF TAD I'W BLANT.

YR wy'n ymado, f'anwyl blant,
I oerllyd bant y beddrod ;
Yn teimlo 'rwyf y babell hon,
Ymron, ymron ymddatod.

Yr unig wres a deimlaf fi,
Sydd attoch chwi, a'm Crewr ;
Nid oes dim hiraeth yn fy mryd,
Am swn y byd a'i gynhwr.

Yn aros arnoch y bo gwlith
Fy hon ddwys fendith olaf ;
Yn dawel iawn y byddoch byw
Dan nawdd y Duw Goruchaf.

O rhodiwch yn ei lwybrau Ef,—
Rhydd i chwi nef yn wobrwy,
Y dawel fro, yr hyfryd fan
O wynfyd anrhaethadwy.

A phawb o'ch amgylch byw mewn hedd
Fo i chwi'n wledd wastadol ;
Dechreuwch yma hoffi gwaith
Y nefoedd faith dragwyddol.

Myfi sy'n myned, teimlaf hyn,
I wlad a glyn yr angho' ;
Dan aden Duw y b'och yn iach,
Yr Arglwydd a'ch bendithio.

Daniel Ddu o Geredigion.

NODION Y MIS.

MOR hyfryd yw trigo o frodyr yn nghyd. Meddylid unwaith fod pabell y *New Theology* i fod yn ddigon eang i gynwys rhai yn gwahaniaethu mewn barn; ond beth ydyw hyn ydym yn glywed? Fod Dr. Warschauer wedi tori ei gysylltiad a'r *Christian Commonwealth.* Dywedir nad oes digon o le i ddau lew yn yr un allt, ac y mae'n amlwg fod pabell y cyfarfod yn rhy gul i gynwys Warschauer a Campbell. Cawn Campbell yn cymeryd lle Warschauer yn y *Commonwealth,* a chawn Warschauer yn hallt yn dynodi gwendidau ac anghysonderau Campbell yn y *Christian World.* Y farn ar y cyntaf oedd mai rhwymyn undeb y gymdeithas newydd oedd cariad a charitor, ond amlwg ei fod wedi troi yn fethiant fel yr ydys wedi syrthio yn ol ar yr hen—ar opiniwn!

Mawr ydyw swn a berw y crochan gwleidyddol yn yr ymdrech arlywyddol ar hyn o bryd yn yr America. Y ddau ymgeisydd ydynt Mr. Taft, Ysgrifenydd Rhyfel yn y Weinyddiaeth bresenol, a Mr. Bryan. Y blaenaf ydyw cynrychiolydd Mr. Roosevelt a'i barti, ac efe fuasai ei olynydd naturiol, onibae am un nodwedd neu ddiffyg anfaddeuol berthyn iddo. Ymddengys mai Undodwr ydyw Mr. Taft o ran ei syniad crefyddol, ac mewn canlyniad y mae holl helgwn iawnffyddiaeth rongc mewn *full cry,* ac ni fynant mo hono ar un telerau. Addefir, o leiaf, gan y blaid y perthyn iddynt, mai efe ydyw'r cymhwysaf i eistedd yn nghadair y llywydd yn y Ty Gwyn, ond y mae ei syniadau crefyddol yn beryglus, a gwell cael dyn anghymwys os bydd ei syniadau crefyddol ar bynciau mawr y ffydd yn iach. Nid ydyw'r engraifft hon ond yr un ddangosir at yr Undodwr dirmygedig mewn cylchoedd llai.

Y mae Dr. Clifford yn ddiweddar wedi bod yn dathlu ei haner can' mlynedd yn y weinidogaeth ac fel dyn cyhoeddus. Diau mai Dr. Clifford yw y mwyaf ei ddylanwad o holl weinidogion Ymneillduol y wlad ar hyn o bryd, ac y mae yr hanesyn canlynol am dano yn ddyddorol:—Yr oedd Spurgeon a Dr. Clifford ill dau yn Fedyddwyr, ond yn gwahaniaethu yn fawr yn eu barn dduwinyddol, eto yr oeddynt yn gyfeillion gwresog. Ebe Spurgeon un tro wrth Clifford (Clifford ei hunan sydd yn adrodd)—"Fedra i ddim deall, Clifford, sut y mae'n bod, a ninau yn cwrdd mor fynych, na fyddech chi'n dod yn nes at fy syniadau i."—"Mi ddweda i chi," meddai Clifford, "ni fyddaf yn cwrdd a chi ond unwaith y mis, ond yr wyf yn darllen fy Meibl bob dydd, a hyny 'ngheidw i yn fy lle."—Mwynhaodd Spurgeon yr ateb pert cystal a neb.

Cyfeiriwyd genym o'r blaen at yr yspryd rhyddfrydig ddengys golygydd y *Drych Americanaidd* tuag at bob plaid grefyddol. Gwelwn yn gyson adolygiad ffafriol o'r YMOFYNYDD yn ei golofnau. Ond y mae y fath ysbryd yn fwy nas gall un "Syllog" ei ddal a chwyna fod y golygydd "yn hynod ofalus i beidio anghofio yr YMOFYNYDD." Cwyna "Syllog" fod y *Dysgedydd* a'r *Diwygiwr* yn cael eu anwybyddu. Dywed y golygydd mewn atebiad ei fod yn adolygu a chroesawu pob cylchgrawn ddaw i'r swyddfa. "Ie, croesawn, hyd yn nod yr YMOFYNYDD sydd yn wrthrych casineb ein beirniad. Nis gallwn ar dir cysondeb a thegwch, anwybyddu ymwelydd mor gyson."

Rhifyn dyddorol fel arfer ydyw'r *Geninen* am Hydref, ac ni ddylai yr un person gâr ei iaith ei wlad a'i genedl fod heb fynu ei darllen yn rheolaidd. Ceir yn mhob rhifyn ffrwyth meddyliau addfetaf ein cenedl ar bob pwnc ddeil gysylltiad a bywyd y Cymro. Y mae cynwysiad y rhifyn hwn yn rhy faith i sylwi arnynt, ond dymunem addef mai "Penod Shiprys" gan Eilir ydyw'r gyntaf i ni ei ddarllen. Gobeithio y rhydd i ni eto ragor o'i brofiad yn y byd Eisteddfodol.

ODDIAR Y TWR.

Anhawdd i wyliedydd, hyd yn oed i wyliedydd craffus iawn, yw sylwi ar ragor nag un gwrthddrych ar yr un adeg. Efallai y temtir y darllenydd i ddweyd fod hyn, nid yn unig yn anhawdd, ond hefyd yn anmhosibl. Rhwydd ganiataf fod y darllenydd yn iawn. Mae awdwr natur wedi cyfleu'r llygad yn y fath fodd ag i beri i bob pelydr o oleuni i daro'r ganwyll fel, wrth adlewyrchu, ag i syrthio yn ol ar un pwynt neu wrthddrych yn unig. Ond er na fedr y llygad sylwi ar ragor nag un gwrthddrych ar y tro, gall symud o un gwrthddrych i'r llall gyda chyflymdra mellten. Nid da, mae'n wir, yw gwibio yn frysiog fel hyn i bedwar ban y byd, a phasio o un gwrthddrych i'r llall yn ddiaros. Ni fedd y sawl a wnant hyn ond amgyffred anmherffaith o bob gwrthddrych y syrth y llygaid arno. Os am gael amgyffrediad cymharol gyflawn o bob gwrthddrych, rhaid aros gydag ef am dipyn, ac edrych arno o wahanol gyfeiriadau. I'r hwn a wna hyn y daw y wybodaeth gywiraf, lawnaf. Mae'r un peth yn wir am lygad y meddwl—os priodol y fath ymadrodd. Mae llygad y meddwl mor analluog a'r llygad naturiol i sylwi ar ragor nag un gwrthddrych ar y tro. Ond, fel yn achos y llygad naturiol, medr symud o un gwrthddrych i'r llall mor gyflym neu mor araf ag

yr ewyllysia. Yr ydym yn byw mewn adeg pryd y rhoddir i bob dyn myfyrgar gyfleusderau bron aneirif i arfer y ddau allu. A rhaid gwneud hyn cyn y gellir cael amgyffred boddhaol o wahanol

Fudiadau Mawr ein Hoes.

Dyna un anhawsder a'm cyferfydd yn barhaus pan yn syllu ar y byd o'm hamgylch oddiar fy uchel-fan—y tŵr. Er fod yr ysmotyn yr arferaf sangu arno yn mhell o ganolbwynt pethau, daw i'm clustiau si o drwst y cyffroadau cymdeithasol a chrefyddol a siglant sylfeini hen sefydliadau a hen feddylddrychau; a gwelaf arwyddion eu bod yn ngwewyr esgor ar sefydliadau a meddylddrychau newydd. Deuant, un ar ol y llall i'm sylw; a hawlia pob un o honynt ychydig ystyriaeth, nid digon efallai i roddi i mi syniad boddhaol mewn cyfeiriad y gogwyddant—ai yn nghyfeiriad cynydd ynte yn nghyfeiriad dirywiad. Dyna'r cyffroadau gwleidyddol—cais y merched am bleidlais, breuddwydion y blaid Sosialaidd, honiad y diwaith o ddyledswydd y Llywodraeth i'w cynorthwyo, heb son am eraill llai—neu, efallai, fwy—eu pwys. Y mae y rhai hyn i gyd yn ddyddorol, ac yn bwysig, rai o honynt. A dyddorol fyddai sylwi arnynt yn fanylach, a cheisio gwneud allan beth sydd i ddod o honynt, a pha fath fydd eu heffaith ar ddyfodol cymdeithas. I mi, fodd bynag, mwy dyddorol yw'r

Cyffroadau Crefyddol

y mae'r blynyddau diweddaf wedi esgor arnynt. Trai a llanw yw un o nodweddau amlycaf hanes crefydd o'r dechreu—o leiaf, o'r hyn a elwir genym ni yn dechreu. Un adeg medd ddylanwad nerthol ar gymdeithas; dwg i fodolaeth fudiadau, effaith y rhai a deimlir am ganrifoedd; adeg arall mae'r dylanwad bron diflanu. Daw y cyfnewidiad hwn—y trai a'r llanw hyn—i'r golwg yn hanes Cristionogaeth bron gyda rheoleidd-dra sigl y pendyl. Yr ydym wedi—neu, yn fwy cywir, yr ydym yn—pasio trwy gyfnod y trai ar grefydd. Dywedaf hyn er y ffaith fod Cymru newydd fyned trwy gyffroad diwygiadol hynod—hynod mewn rhagor nag un ystyr. Mae'r

Diwygiadau Diweddar,

fel y mae gwaethaf y modd, wedi myned, heb adael ond ychydig o'i ol ar fywyd crefyddol ein cenedl. Y cri glywir o bob cyfeiriad yw fod y bobl tu allan i'r eglwysi—nad oes ond cyfran fechan o'r boblogaeth yn dal cysylltiad ag unrhyw sefydliad crefyddol. Beth y mae hyn yn olygu? Ai fod crefydd yn colli ei gafael ar y bobl? Ynte fod y natur ddynol, fel y mae yn esgyn mewn gwareiddiad, yn raddol yn ymddiosg o'r hyn a elwir yn elfen grefyddol? Nid hyny; ond golyga nad oes mewn crefydd, fel y gwisgir hi i'r bobl, ddim sydd yn apelio at y meddwl diwylliedig. Hefyd, mae'r eglwysi wedi eu hamgaeru â'r fath urddasolrwydd fel na faidd y bobl gyffredin

anturio tu fewn iddynt. Mae y Crist eglwysaidd wedi colli ei swyn ; ac y mae

Y Crist Gwirioneddol

eto heb esgyn i'r orsedd yn ei le. Ond pa bryd bynag y gwneir ymgais i ddadlenu y Crist gwirioneddol—Crist yr Efengylau—i'r bobl, rhoddir iddo dderbyniad, croesawir ef fel yr arweinydd y mae cymdeithas yn dyheu am danô. Gwneud crefydd yn gredadwy yw un o angenion mawr ein hoes. Angen arall—yn codi o'r cyntaf—yw ei gwneud yn fwy ymarferol. Croesawn yr hyn a elwir yn Dduwinyddiaeth Newydd am y rheswm ei bod yn amcanu at wneud hyn—at gyflenwi'r ddau angen. Dywedaf ei bod yn amcanu at wneud hyn am y rheswm nad oes ynddi hi, mwy nag mewn ffurfiau eraill o grefydd, nodau terfynolrwydd. Nid oes terfynolrwydd i ddim —hyd yn oed i grefydd yn ei gwahanol arddangosiadau. Ac y mae unrhyw fudiad, yn yr eglwys neu tu allan i'r eglwys, sydd yn amcanu at gyflenwi'r ddau anghen hyn yn fudiad bendithiol. Fod y Dduwinyddiaeth Newydd yn gwneud hyn nid oes ball ar brofion. "Cyfaddefaf," meddai George Bernard Shaw, un o ddynion mawr ein cyfnod, "fod Mr. Campbell wedi peri i mi i gredu yn Nghrist." Nid oedd yn credu yn Nghrist yn flaenorol i hyn. Yr oedd y portreadau o Grist ddygid i'w sylw—megis eiddo'r Deon Farrar yn ei "Fywyd Crist"—yn gwneud yr efengylau yn ffug iddo, a chrediniaeth yn Nghrist yn anmhosibl. Dyna brofiad cyffredin iawn. Nid yw'r Dduwinyddiaeth Newydd ond rhan o un mudiad mawr y mae yspryd nodweddiadol ein hoes wedi ddwyn i fodolaeth.

Beth am ei Dyfodol?

Ni fedraf ddweyd. Profa drai a llanw yn ddiau, ac ymddibyna ei thynged ar y ffyddlondeb gyda'r hwn y ceisia ddiwallu'r ddau angen a nodwyd –gwneud crefydd yn gredadwy ac ymarferol. Beth am danom ni ein hunain? Arferem ymffrostio ein bod yn rhan o'r fyddin sydd, yn mhob gwlad, yn gwneud am gynydd mewn crefydd, fod ein cenadwri yn rhesymol ac ymarferol. Ac eto yr ydym wedi gorfod gwynebu'r ffaith fod y boblogaeth bron yn llwyr yn gwrthod gwneud dim a ni. Nid yw nifer cofleidwyr y syniadau a goleddir genym ac o grefydd fel y dysgir hi genym ond cyfran fechan o'r cyfangorph. A ydyw ein cenadwri mor ddiallu i apelio at gydymdeimlad pobl ag y mae cyflwr ein heglwysi yn awgrymu? Y mae'r

Genhadaeth Wibiog

trwy ardaloedd poblog ein gwlad yn ystod y tymor sydd newydd derfynu yn amlygu'r ffaith fod yn ein cenadwri rywbeth sydd yn apelio at bob dyn myfyrgar, ac yn enill ei gydymdeimlad, os nad ei gydsyniad. Dylai'r ffaith hon ein calonogi, a'n hysprydoli i ymdrech mwy difrifol, a pheri i ni daflu ar y naill du y teimlad sydd wedi ein cadw hyd yma tu fewn i'n heglwysdai, a myned allan i blith y bobl —i'r heolydd a'r marchnadleoedd—i draethu iddynt ein cenadwri.

Y Gwyliedydd.

ADSAIN YR HOLI GYDA'R *VAN.*

JOHN JONES.—Wn i ddim beth ddywed fy mrodyr atheistaidd wrthyf pan glywant.

DAVID DAVIS.—Pan soniwch am eich brodyr atheistaidd, a ydych am awgrymu eich bod yn atheist eich hun?

J.J.—Ydw'n siwr. Dyna beth ydw i.

D.D.—Pa beth ynte olygwch wrth ddweyd eich bod yn atheist?

J.J.—Mae'r ateb yn syml. Nid wyf yn credu fod yr un Duw i gael.

D.D.—Diolch am eich ateb gonest. Yr oeddwn am ddeall yn gywir beth oedd eich sefyllfa feddyliol. Mae amrywiaeth mawr yn mhlith y rhai a broffesant atheistiaeth. Wrth gwrs, gallwch ddweyd, (1) Na wyddoch chi ddim am Dduw; neu (2) Nad ydych yn credu mewn un Duw o'r fath y clywch ereill yn son am dano; neu (3) Eich bod yn gwadu yn gyfangwbl fod Duw yn bod. Os y cyntaf yw eich safle, o'r braidd y mae yn gyfystyr a bod yn atheist—un yn gwadu Duw; mwy priodol fyddai i chwi alw eich hunan yn agnostic—(neu Wn-i-Ddim) yr enw wrth yr hwn y dymunai Huxley alw ei hun, a'r dewisol heddyw gan lawer o wyddonwyr tebyg i Huxley. Os yr ail yw eich safle, ni fyddwch o angenrheidrwydd yn cau allan y syniad fod Duw. Os y trydydd, ymddengys i mi y byddech yn honi safle anmhosibl i fod meidrol, ac yn awgrymu gwybodaeth hwnt i ddim y gall bod meidrol fod yn benderfynol yn ei gylch. Cryf yn ddiamheu oedd dywediad y Psalmydd, a barnai George Holyoake ei fod yn anfoneddigaidd, pan yn llefaru—yr *ynfyd* a ddywedodd yn ei galon, nid oes un Duw; ac eto sylwer mai *yn ei galon* y dywedodd. Beth tybed feddyliai'r Psalmydd am rai dynion heddyw a ant i benau tai ac a grochlefant—Nid oes un Duw!

J.J.—Gyda'ch cenad, nid wyf am fod yn *dogmatic*, cas beth fyddai genyf i fod yn haerllug. Yr wyf wedi darllen a holi a myfyrio gore byth fedraf, a'r casgliad wyf wedi dod iddo yw—nid oes un Duw.

D.D.—Yr ydych yn ifanc eto, ac o bosibl mai wedi cael ymwared ydych o syniad am Dduw a orweddai megys hunllef ar eich meddwl. Os yw eich safle feddyliol yn un o wadu yn unig, ni fyddai genyf fi fawr obaith i barhad o'r ymddyddan fod o un lles i chwi na minau. Ni gawn eich helpio i'r argyhoeddiad fod Duw, a bod hwnw yn Dduw'r cariad.

J.J.—Diolch yn fawr am eich dymuniadau da; ond ewch rhagoch.

D.D.—Yr oeddwn yn myn'd i ddweyd fy mod yn tosturio wrthych, gan y credaf nad yw sefyllfa feddyliol fel yr eiddoch ddim yn un ag y gall yn bosibl helpio dyn i wneuthur y goreu o'i fywyd, nac yn un all yn bosibl weinyddu dedwyddwch parhaus i neb pwy bynag. Gall fod yn llawenydd i ddyn ieuanc gael dianc o grafangau Uffern a Diafol yr hen syniadau; ond heb iddo fyned yn mhellach na hyny ni fydd ganddo dir diogel dan ei draed. Y peth gred dyn yn unig rydd help iddo, ac a weinydda gysur iddo.

J.J.—A ydych am awgrymu fod amheu yn bechod?

D.D.—Dim o'r fath beth, nid oedd dim yn mhellach o fy meddwl. Nid yw amheu syml ddim bob amser yn bechod, gall fod lawer pryd yn rhinwedd, ac yn anocheladwy. Fel hyn y geiria Tennyson ei farn,

"Mae mewn amheuaeth onest fwy o ffydd,
Na cheir, cred fi, yn holl gredoau'r dydd."

Ac eto ffwl yw'r dyn fydd yn foddlawn, ar ol syrthio i'r ffos, i aros yno; am

hyny fe awgryma Tennyson y ddyledswydd i ddyn fyned rhagddo a brwydro yn erbyn ei amheuon nes eu gorchfygu, a daw ffydd drwy hyny yn gryfach nag o'r blaen. Credaf i chwi ddweyd eich bod wedi darllen gweithiau Herbert Spencer.

J.J.—Do'n siwr, a buont i mi'n agoriad llygaid hapus iawn.

D.D.—Mae'n bosibl y gwyddoch fwy am danynt nag a wn i, ac eto mi garwn ofyn ai nid yw'n bosibl fod rhai pwyntiau pwysig yn ei syniadau nad ydych am ryw reswm wedi dal digon arnynt?

J.J.—Mae'n bosibl ddigon, ni phroffesaf anffaeledigrwydd, gadawaf hyny i'r eglwysi.

D.D.—Chwareu teg i'r eglwysi. Er y dichon eich bod chwi wedi dioddef, nid teg cyhuddo'r eglwysi oblegyd yr hyn y mae rhai o'r aelodau feallai yn euog o hono. Gwn fod ambell i un yn y set fawr yn ddigon anwybodus i ymddwyn fel pe byddai'n tybied ei hun yn hollwybodol ac yn anffaeledig. Ond yr hyn oeddwn am hel ato oedd hyn,—na fynai Spencer alw ei hun yn atheist, ac yn sicr nid oedd yn faterolydd. Cydnabyddai efe y Gallu mawreddog a ymguddia y tu cefn i ymddangosiadau; ond ni fedrai gael enw priodol iddo. Ni fedr neb amheu'r Gallu; Efe yw'r dysgyrchiant sy'n cyrchu'r planedau, yn gyru'r fellten, yn arwain yr afon i'r môr. Yr un hefyd yw, medd Spencer, a hwnw sy'n ffynoni mewn dyn fel ymwybyddiaeth (that wells up as consciousness in man). Er hyn oll ni fedrai gyfrif personoliaeth iddo, a galwai ef yn "It" ac nid "He."

J.J.—Yr wyf yn tueddu i gytuno â Spencer. Nid wyf yn gallu gweled dim yn debyg i'r hyn feddyliwn ni wrth berson.

D.D.—Mae hyny yn dybynu ar beth feddyliwch wrth berson. Nid person dyn yw ei gorff. Eiddo'r dyn yw ei ben, ei ddwylaw a'i draed, ac nid y dyn ei hunan. Gall dyn golli ei ddwylaw neu ei draed, tra'r dyn ei hun yn ei bersonoliaeth yn aros. Rhoddai Spencer ystyr i bersonoliaeth oedd yn amlwg yn cau allan y posibilrwydd o gyfrif Duw yn berson; ac am hyny 'It' oedd y Gallu mawr iddo ef ac nid 'He.'

J.J.—Ie, ond rhowch glywed sut y bwriadwch chwi ddyfod allan o'r dyryswch. Teimlaf ddyddordeb yn eich sylwadau, ac addefaf y carwn eich gweled yn gallu troi'r 'It' yn 'He.'

D.D.—Addefa'r gwddonwyr yn gyffredin bresenoldeb y Gallu—yr Yni (*force*)—sydd yn mhob man mewn cysylltiad a phob mymryn o fater.

J.J.—Nid wyf yn gweled eich pwynt.

D.D.—Esgusodwch fi am funyd. Cyfrifai'r Proffeswr Tyndall ei hunan yn faterolydd, ac ar yr un pryd, yn anghyson iawn, dybiaf fi, credai fod y niwl ar yr Alpau (*Hydrogen* ac *Oxygen* yn unig?), yr addewid a'r galledigrwydd (*promise and potency*) o bob ffurf o fywyd. Mor bell fe aiff y gwyddonwr gyda ni ar hyd llwybr ein hymofyniad. Drachefn dyna Emerson yn dywedyd "fod yna anadl o ewyllys yn chwythu'n dragwyddol drwy'r bydysawd o eneidiau yn nghyfeiriad yr iawn a'r angenrheidiol"; a chydnabyddir yr un gallu dirgelaidd gan Matthew Arnold pan gyfeiria at "Ffrwd tueddiad, y Tragwyddol, nid ni ein hunain, sydd yn ymestyn at gyfiawnder." Nid oedd Emerson ac M. Arnold, mae'n wir, yn wyddonwyr proffesedig, ond credaf eu bod wedi arwain ar hyd llwybr diogel hyd at ymylon maes Rhinwedd a Moes.

J.J.—Drwg genyf ddywedyd eto nad wyf yn gallu eich dilyn. Yr ydych yn camu yn rhy fras.

D.D.—Ni ddylwn synu, feallai, eich bod yn ffaelu dilyn. Ceisio'r oeddwn i nodi allan rai o'r teithi neu'r priodoleddau berthynant, fel y tybiaf fi, i'r Gallu Mawr; ond y mae'n ddiameu yr ymddengys y pwnc yn fwy anhawdd i rai na'u gilydd. Cydnebydd Sophar, y Naamathiad, Agnostic llyfr Job, anhawsdra'r pwnc pan yn gofyn, "A elli di wrth chwilio gael gafael ar Dduw? A elli di gael yr Hollalluog hyd berffeithrwydd?"

J.J.—Ie, dyna'n gywir fel y mae. Deuwn o hyd at y Cul-de-sac nad pa lwybr gymerwn, a darllenwn—Dim Tramwyfa—*No Thoroughfare.*

D.D.—Na, nid felly yn hollol chwaith. "Hyd berffeithrwydd" yw y gair. Ni fedr y meidrol fyned mor bell, ni fedr gwmpasu'r Anfeidrol. Ac eto, nis boddlonir ef heb dreio—treio hyd eithaf ei fedr. Nid yw llwybr y blaenfynediant yn hollol annhramwyadwy. Er addef anhawsderau'r daith, mynwn dreio'n goreu i'w gorchfygu, a helpu eraill i wneuthur yr un peth. Motto'r ddynoliaeth yw *No surrender!* Rhagom ynte!

J.J.—Dywedaf o galon — Pob llwyddiant!

D.D.— O'r goreu. Gwnawn un cais arall i wynebu dirgelwch y Gallu mawr.

J.J.—Doeth i chwi fod yn fyr gan y credaf fod yna storom ar bwys. Sylwch mor wyll y gyrir y cymylau acw.

D.D.—Par imi gofio geiriau'r Psalmydd pan yn son am Rywun "yn gwneuthur y cymylau yn gerbyd iddo, ac yn rhodio ar adenydd y gwynt."

J.J.—Fel barddoniaeth gallaf fwynhau ymadroddion o'r fath cystal ag erioed.

D.D.—Ond beth tybed sydd yn peri i'r cymylau symud o gwbl?

J.J.—Y gwynt wrth gwrs, a pho gyflyma y chwyth y gwynt cyflyma i gyd y symuda'r cymylau.

D.D.—Ymddengys yr ateb yn syml iawn; a chan fod *achos* i bob effaith, eich casgliad yw—mai'r gallu sy'n achosi symudiad y cymylau yw'r gwynt. Ofnaf nad ydym wedi cyffwrdd a gwreiddyn y dirgelwch wrth gysylltu achos y symudiad â'r gwynt. Beth yw gwynt?

J.J.—Awyr mewn cyffro ydyw, ac mi welaf ddau ofyniad yn codi yn naturiol, Beth yw awyr? Beth sy'n ei gyffro?

D.D.—Nid yw awyr ond cyfuniad o ddau nwy—*Nitrogen* ac *Oxygen* yn y cyfartaledd o bedwar mymryn o'r naill i un o'r llall—4 *to* 1.

J.J.—Mi welaf eich *point.* Yr ydych am wahaniaethu rhwng y mymrynau symudir a'r rhywbeth arall hwnw sydd yn eich tyb chwi yn peri'r symudiad.

D.D.—Felly'n gywir. Ni ellwch ddychymygu'r mymrynau mater difywyd hyn yn symud o honynt eu hunain. Un o briodoleddau mwyaf adnabyddus mater yw'r hyn eilw'r Sais yn *Inertia*—yr anallu i gynyrchu yni—i achosi symudiad. Perthyn yr *inertia* hwn i bob math o fater, bob amser ac yn mhob lle. Gedy'r saer ei lawlif neu ei forthwyl yn rhywle y nos o'r blaen, a disgwylia ei gael yno yn y bore; gedy'r pregethwr ei lyfr ar gornel y bwrdd, ac os na fydd yno dranoeth pan yr aiff i chwilio am dano, ni thybia am foment ei fod wedi myned i ffwrdd o hono ei hun; bydd yn gwybod fod y symudiad wedi ei achosi gan rywun ag ewyllys ganddo—gan ryw berson, ac nid anhebyg na chaiff y forwyn neu rywun arall glywed tipyn o swn a therfysg fel canlyniad.

J.J.—Awgrymasoch gyneu na fedr y mymrynau hyn fyned yn nghyd heb help, ac eto y maent yn myned yn nghyd.

D.D.—Ant yn nghyd yn rhinwedd yr yni cysylltiedig a hwynt. Mae'r ddau yn wastad gyda'u gilydd, ond nid un peth mo honynt, ond y maent yn ddau beth hollol wahanol, fel mae'r badwr a'r bad, neu'r cerddor a'r piano yn ddau. Yn ol Du Bois Raymond, ac ymddengys Tyndall yn cytuno ag ef,—ni pherthyn i'r mymryn *Carbon*, *Hydrogen*, *Oxygen*, na *Nitrogen* ynddo ei hun yr un gallu i symud o gwbl; ac eto yn eu cyflwr rhydd symudant (neu'n hytrach fe'u symudir) fel pe byddent feddianol ar yr ewyllys a'r gallu i ddewis. Ymgysylltant a'u gilydd megys wrth reol. Ebe'r mymryn *Oxygen* wrth y mymrynau *Hydrogen*—dau o honoch, dim mwy a dim llai, a phriodant i wneuthur *dwfr*; ond wrth y mymryn *Nitrogen* y mae gan y mymryn *Oxygen* stori wahanol; ni foddlona heb bedwar, a chyda'u gilydd ffurfiant *awyr.* Ac felly trwy'r maes an-

organaidd neu ddifywyd i gyd, ymgysylltant yn wahanol, ond megys wrth reol, wrth drefn ; fel y daw geiriau Iolo Morganwg i mi yn darawiadol iawn : —

I ddyn mae'r *drefn* yn rhyfedd iawn,
I gyd yn llawn dirgelwch ;
I lygad Duw nid dim ar goll,
Fe wel drwy'r holl dywyllwch.

J.J.—I mi'r dirgelwch a'r tywyllwch sy fwyaf amlwg o hyd, er y teimlaf fod genyf weithiau fath o gipolwg amgenach nag o'r blaen ar ystyr yr hyn a welaf.

D.D.—Fe erys llawer o'r dirgelwch i bawb, ac er yr holl ddarganfyddiadau a wneir yn barhaus, fe erys am byth, a hyny am na fedr y meidrol gwmpasu yr anfeidrol. Eto nid yw yn anhawdd gweled un peth, gan ei fod mor amlwg fod yna drefn ar bethau, fod yna ryw egwyddor arweiniol (*guiding principle*) yn ganfyddadwy ar bob llaw. Pan ddeuwn i'r maes organaidd, y maes lle mae Bywyd yn rheoli, fe ddaw trefn yn fwy amlwg fyth. Yn y byd anifeilaidd megys yn y byd llysieuaidd mae'r fferyllydd yn cael allan ar ol dadansoddi darn o'r naill neu'r llall, darn o lysieuyn neu ddarn o gig dyweder, mai'r oll sy ganddo yn ei lestr, yw ychydig o *Carbon*, ychydig o *Hydrogen*, o *Oxygen* a *Nitrogen*—C + H + O + N - hyny yw, dyna'r prif ddefnyddiau sy gan y Pen Saer mawr, pa un bynag a fyddo yn adeiladu coeden neu ddafad. Pan fwriada dyn godi ty, fe ddwg yn nghyd y coed, y ceryg, y morter, &c.; ond ni fedr neb ddychymygu pa fath dŷ fydd heb gael rhywbeth yn rhagor, ac mae'r rhywbeth rhagor hwnw ar y cyntaf yn gorwedd yn guddiedig yn meddwl yr adeiladydd ; ond wedi tynu'r cynllun a'i drosglwyddo ar bapur daw'r oll yn glir, a gall y *contractor* fyned yn mlaen a'r gwaith. "Rhoddwch i mi fater," ebe Kant, yr athronydd mawr o Koenigsberg, "ac egluraf i chwi ffurfiad byd ; ond rhoddwch i mi fater yn unig ac nis gallaf egluro ffurfiad gwybedyn." Emerson onide, ddywedodd, "Dalla' i ddim edrych ar y wenynen yn adeiladu ei diliau mel, na fydda i'n teimlo fod yna rywun o'r golwg yn gwylied ac yn cyfarwyddo'r gwaith !"

J.J.—Ie, rhywbeth rhagor ; deallaf yr awgrymiad. Ni ellir gwneuthur dim o'r C.H.O.N. heb gysylltu'r dirgelwch mawr a hwy.

D.D.—Nid ydych yn mhell o'ch lle. Y mae angen rhywbeth yn wahanol er cynyrchu pethau gwahanol, megys cloronen a cheninen, ci a dafad. Er i'r defnyddiau fod fwy neu lai yr un peth, y mae i bob un ei gynllun arbenig ei hunan, a cheidw'r adeiladydd bob amser at linellau'r cynllun.

J.J.—C.H.O.N. a rhywbeth rhagor—y rhywbeth rhagor yn gwneuthur y gwahaniaeth. Os heuir ceirch, ceirch ddaw i fyny ; os heuir gwenith, gwenith ddaw. Cofiaf glywed am gae yn Llandyssul nad beth heuai'r ffermwr ynddo, ceirch neu wenith neu farlys, ceirch gwyllt ddeuai i fyny bob amser ; a chofiaf am aml i gyfaill bore bywyd i mi, er pob ymdrech ar ran tad a mam, athrawon a chyfeillion, i hau hadau daioni, nid oedd dim yn tycio, ceirch gwyllt oedd y cynyrch o hyd.

D.D.—Begian pardwn, rhag ini golli golwg ar y testun ; diolch i chwi am eich gwrandawiad astud ; ond dyma'r hyn oeddwn i'n hel ato—ond Trefn yn awgrymu *Doethineb*, a chredwn yr amlygir ar bob llaw Allu a Doethineb anfeidrol uwch nag eiddo unrhyw ddyn—doethineb yn deall, yn ewyllysio, yn amcanu, yn trefnu, yn cyfeirio, yn cynyrchu o'r un defnyddiau materol—C.H.O.N. &c.,—gwrthddrychau amrywiol y Cosmos. Nid rhyfedd i hen lenor y gorphenol pell, wedi bwrw golwg dros y cread, weled, nid yn unig yr 'It,' ond yr 'He' hefyd, fel y gallodd ysgrifenu—"A Duw a welodd mai da oedd."

J.J.—Ni fedra' i yn fy myw weled yr 'He.' Cydnabyddaf y Gallu a rhai o'r priodoleddau y soniasoch am danynt, ond dim sydd yn dwyn Personoliaeth i'r golwg.

D.D.—Credaf y cwyd eich anhawsdra yn benaf oddiwrth y syniad sy genych am beth yw personoliaeth. Rhaid i chwi wahaniaethu rhwng yspryd dyn, yr hwn sydd yn llywodraethu'r symudiadau, a'i gorff; rhwng y Fi a'r corff sydd yn eiddo'r Fi. Corff y dyn sydd yn amlygu ei bresenoldeb i'n synwyrau ni; ond eiddo'r dyn ac nid y dyn ei hunan yw'r corff. Fel hyny'n unig y gallwn ni ddeall geiriau'r Psalmydd—"Eiddo'r Arglwydd y ddaear a'i chyflawnder, y byd ac a breswylia ynddo,"—ei eiddo, sylwer, ac nid Efe ei hunan. I Carlyle, nid oedd y cydfyd a'i gynwys i gyd ond gwisg—amserwisg y Tragwyddol yn amlygu Yspryd Duw i yspryd dyn.* Addefa H. Spencer nad yw'r Gallu ddirgelaidd sydd yn gweithio yn a thrwy y cread, nad beth arall yw, ddim yn llai na pherson. Mae'n cynwys yr oll sydd yn y deffiniad ddyry athronwyr iddo heddyw—sef cyfuniad o feddwl, teimlad, ac ewyllys. Mae fy stori wedi myned yn hir, a bydd cystal brysio at y terfyn.

J.J.—Yr wyf yn ddiolchgar am y drafferth ydych wedi gymeryd, a'r amynedd canmoladwy ydych wedi ddangos tuag at ddyn ieuanc nad oes ganddo un hawl arnoch.

D.D. — Terfynaf trwy adrodd gweddill emyn yr hen Iolo :—

Beth bynag yn yr wybren fry
  Neu'r ddaear sy'n ymddangos ;
Yn waith Doethineb mawr a'i cawn,
  Pob peth at gyfiawn achos.

Am ddeall oll a wel yn awr,
  Mae dyn yn mawr ymboeni ;
Boed am bob peth ei gred yn fyw,
  Ei ddiben yw daioni.

O Dduw ! boed ini ddeall hyn,
  Boed arno'n dyn fy ngolwg,
Fod oll yn ddoeth ac erom ni
  Dy fawr ddaioni'n amlwg.

J.J.—Diolch eto ; credaf y bydd eich sylwadau yn fuddiol imi pan y caf hamdden i roddi ystyriaeth briodol iddynt. Geiriau'r bardd Seisnig ddesgrifiant yn oreu fy safle bresenol, —"A mighty maze, yet not without" ; ond carwn allu teimlo gydag Alfa,—

Nid wyf am wybod pob peth 'nawr,
  Ond hoffwn deimlo'r gwynfyd
Sy'n trwsio 'i wên yn mhorth y wawr—
  Porth tragwyddoldeb Bywyd !

B.C.D., COFIADUR.

* Wrth gyflym Rod amser 'rwy'n gweithio bob awr
I weu gwisg weledig y Duwdod mawr.

—GOETHE—*Fâust.*

LLYTHYR Y CRANC.

II.

MR. GOLYGYDD,

Y mae'n gyrddau mawr gyda ni heddyw. 'Does geny' ddim yn erbyn cwrdd mawr. 'Rwy'n *enjoyo*'r pregethau gystal a neb. Y mae ol llawer o feddwl a theimlad personol ar lawer o'r pregethau ; a llawer mwy o ol ysgrifenyddion duwinyddol, hen a newydd. Hyfryd o beth yw'r canu, a'r pregethu, a'r tyrfaoedd yn y cyrddau mawr. Un peth pwysig sydd geny' yn eu herbyn—y casglu. Y mae swn y ceiniogau a'r pishis teirau yn disgyn ar y plat neu ar eu gilydd yn annioddefol i'm henaid ; a'r wên

foddhaus ar wyneb y pregethwr pan y mae miwsig y meteloedd yn chwareu yn fy adgofio am wenau Mephistopheles. Wedi ein cario i'r nefoedd ar edyn hyawdledd wele ni yn disgyn bendramwnwgl i'r ddaear, a chrechwen eilunod temlau Mammon yn dilyn gweledigaeth mynydd y gweddnewidiad. Y mae mor amlwg mai amcan y pregethwr mawr, a'r bregeth fawr, a'r holl drefniadau mawr, yw denu arian oddiar y bobl. Y mae pocedi'r dyrfa mor anferthol fwy pwysig na'u heneidiau. Y mae'r ffordd hon o gasglu arian i gynal achos Duw yn y byd yn *ddisgrace* i Gymru, ac i unrhyw wlad arall lle ffyna'r arferiad ddiraddiol. Paham y gwireddir yn nhemlau ein gwlad y ddiareb—"Diwedd y gân yw y geiniog?" Coeliwch fi, Mr. Golygydd, y mae'r diafol yn cael gwell cynhauaf yn y casgliad ar ddiwedd oedfa nad yw crefydd Iesu yn gael yn yr holl bregethau i gyd. Gwn y cyfyd rhywun yn ferbyn am ysgrifenu hyn, ond gwyr pob aelod o gapel ac eglwys mai'r gwirionedd sydd genyf mewn llaw. "Diwedd y gân yw'r geiniog"; da chwithau, swyddogion eglwysi Cymru rhowch y geiniog rywle yn y dechreu, fel na bo swn diweddol yr Amen yn cael ei foddi gan "efydd yn seinio" ar allorau Mammon.

Y mae genyf gwyn arall. Y mae gormod o le yn cael ei roddi i *respectability* yn ein heglwysi. Ambell i dro af i gapel dieithr pan fyddaf wedi gwisgo dipyn yn well nag arfer. Rhyfedd y gwahaniaeth y mae *box hat* yn wneud i dderbyniad dyn mewn man lle nis adnabyddir ef. Del pawb, yn ddiaconiaid, pregethwr, ac hyd yn oed y *ladies* mwyaf *respectable* i siglo llaw a dyn. Gofynir iddo os yw yn bwriadu ymsefydlu yn y lle a gwneir milain o *fuss* o'r gwr am yr unig ffaith ei fod mewn *box hat*. Yr wyf yn siarad oddiar brofiad personol. Os am fyned heibio yn ddisylw mewn capel dieithr, neu hyd yn oed yn eich capel eich hun, rhowch i'r bobl yr argraff nad oes genych fawr yn eich poced. Lle y mae y trysor yno y mae y galon hefyd. Rhyfedd faint o galonau fedrwch gasglu mewn un Sabboth yn y gwagder sydd mewn *box hat*. Y mae'r un peth yn amlwg eto yn mhoblogrwydd *respectability*—ariangarwch, yr hwn yw gwraidd pob drwg.

Y gwr sydd bob amser a'i feddwl ar *Number One* sydd yn gwneyd lleiaf o ddaioni yn y byd. 'Does ond un math o uchelgais na dry yn siomiant yn y pendraw—yr uchelgais i wasanaethu eraill. Pa nifer o bregethwyr sydd yn cofio mai gwasanaethu eu heglwysi yw eu dyledswydd? Hyny yw, meddwl am *Number Two* ac nid am *Number One*. Y mae llawer o honom yn ddigon doeth i wybod mai trwy fod o wasanaeth i *Number Two* y ca *Number One* fwyaf o fudd. Ond pa nifer sydd yn gallu llwyr anghofio hunan yn ngwasanaeth arall? Pa un ai symud ei fan er mwyn eangu cylch ei wasanaeth, neu eangu cylch ei wasanaeth er budd *Number One* y mae'r pregethwr? Anhawdd dweyd ar y pryd, ond yn y *long run* y mae'n gwneud byd o wahaniaeth i bregethwr a chynulleidfa. Pregethu er mwyn arian, ac arian er mwyn pregethu—y mae yna gymaint gwahaniaeth ag sydd rhwng nef ac annwn.

Creadur ofnadwy o *selfish* yw dyn; y mae bron yn anmhosibl gwneud i ffwrdd yn gyfangwblag hunangarwch. Ond pa faint o honom sydd yn ceisio dileu yr hunangariad hwn? Pe baem ond treio tipyn bach byddem wedi haner enill y fuddugoliaeth. Clywaf rywun yn holi, Ai bodau yn byw ar garu eraill yw'r crancod? Atebaf dros fy hiliogaeth na chawsom fawr hapusrwydd erioed drwy garu neb ond eraill. A chwithau, Mr. Golygydd, neu eich is-swyddogion, gofalwch nad anfonoch ddimau goch i'r Cranc am ei lythyron, yn gyntaf, am mai eu hysgrifenu er mwyn eraill y mae, ac yn ail, am nad ydynt yn talu am danynt. Nid oes bris ar ddim da nag ar ddim drwg. Geill y darllenydd farnu ai da ai drwg yr ysgrifenaf.

Ai dibechod a diniwed y creadur

sydd wrth wraidd y llythyr hwn? Nage. Pell, pell, anfeidrol bell o fod yn ddibechod na diniwed. Gwyr bron i sicrwydd na wyr neb ond ef ei hun ddyfnder ei euogrwydd. Cythreulig berorus i'w glust yw swn efydd yn seinio—os ar ei ffordd i'w logell ei hun y mae'r metel. Pe bai'r Cranc yn ysgrifenu hanes ei fywyd yn *wirioneddol* darllenid y gyfrol yn mhob cudd-ystafell yn Nghymru, a chyfieithid hi i holl ieithoedd Ewrob. Nid yw am ymffrostio yn ei euogrwydd, canys blin ganddo feddwl fod yr un peth yn wir am filoedd o wyr a gwragedd yn Nghymru. Y mae'r Cranc yn boenus o debyg i bedwar ugain o bob cant o'r teulu dynol. Felly cymerer yr hyn a ysgrifena am ei werth.

I newid ymadrodd, wrth ymgripian hyd y wlad, yr wyf wedi cyfarfod a llawer math o wyr a gwragedd. Ac ar y cyfan, ychydig ddyddordeb a gymerant uwchlaw'r byd a'r bywyd presenol. Y mae John Cwmrhedynen yn meddwl mwy mewn diwrnod am ei ebolyn, nag yw mewn blwyddyn am y byd y tu hwnt i'r llen. Yr unig *reality* i bobol y wlad yw'r caeau a'r anifeiliaid. Nid ydynt yn hollol gredu fod y fath le ag Australia yn bodoli, a 'does un o gant o honynt yn meddwl am y lleuad fel byd anferth yn ymrolio'n farw drwy'r eangderau. Ac un o fil, neu fwy, sydd a'r un dychymyg ganddo am gyflwr ysprydol. Er cymaint o bregethu sydd wedi bod drwy'r oesau am ogoniant y nefoedd, ac er fod uffern wedi ei diffodd er ys llawer blwyddyn, pa ddyn sydd a'i ffydd yn ddigon cref yn y wlad fendigaid i ddyheu am dani hyd nes i'r ddaear hon fyned yn annioddefol o anghyfforddus iddo?

Waeth faint a draethir i'r bobl hyn am randir India, sidan Persia, ac aur Peru; 'does yr un o honynt a gred yn wirioneddol fod bodolaeth y gwledydd hyn a'u trysorau yn ffaith hollol fyw. Fy marn onest i yw, nad oes ond ychydig a chanddynt ffydd ddisigl mewn un lle ond y man y digwyddant fod yn preswylio ynddo. Y mae cariad at wlad a chartref yn burion peth, ond y mae'n culhau'r enaid yn ddirfawr. Y mae'r cariad hwn yn mawrygu'r meidrol ar draul dibrisio yr hyn sydd *an*feidrol.

Y mae caru Cymru'n burion peth, wedi cael rhesymau dros hyny, ac wedi ei chymharu a gwledydd eraill. Ond am feddwl nad oes wlad tebyg i Walia am y rheswm nad yw un wedi gweled yr un wlad arall erioed, y mae'n beth gwirion i'r eitha. Y mae'n rhaid gweled a meddwl, ac ailfeddwl, a myfyrio ac adfyfyrio cyn y sylweddolir peth yn iawn. Da genyf os gwnaiff rywun brofi imi fod y werin yn deall na chredu dim ond y pethau bychain bydol sydd yn ei chylchynu o ddydd i ddydd. Ond y mae fy llythyr eisoes wedi myned yn faith, ac amynedd y darllenydd, efallai, yn dechreu prinhau. Am hyny terfynaf eto y tro hwn. Yr eiddoch yn anghywir,

Y CRANC.

YMGOM AR AELWYD CNWCYRHWRDD.

Y nos Sadwrn cyntaf yn Hydref ydoedd. "Wel diolch, dyna'r ysgub olaf eleni eto wedi dod i'r ydlan—yn gynheifus hefyd," meddwn wrth Mali, tra yn cymryd mwgyn bach ar ol swper. Ond chlywodd hi ddim. Rhwng yr hosan a'r gweill yn ei dwylaw, a'r ymwelydd misol yn yr amlen goch ar y ford o'i blaen, gwelais ei bod yn fisi, ac y gallwn innau gael haner

awr at hen orchwyl hoff genyf 'slawer dydd, ac eto hefyd o ran hyny pe cawn hamdden, sef ceisio gwneud englyn. Wel, hai ati ynte, bum wrthi am gryn amser, ond gan fod rhwd ar y gêr farddoni, 'doedd gen i ddim byd o graff i gael pan drodd Mali ataf.

"Be'ch chi neyd, Deio," meddai, "rhifo'r helmi ych chi ar benau'ch bysedd felna?"

Nid oedd wedi fy ngweled yn treio englynu er's blynyddau, a gallwn feddwl ei bod wedi gollwng o gof y rhan bwysicaf o'r gelfyddyd ddyrus hono.

"Nage," addefais, "'rwy wedi bod yn treio gneyd englyn bach, ond yn methu cael dim hwyl." "Wel wir, beth nath i chi feddwl am hyny heno?" meddai, "ond dewch glwed beth sy gyda chi." "O'r gore," meddwn inau, "rhyw deimlo yn gyffyrddus a diolchgar am gael cynhauaf i ben mor hwylus, wedi imi fod mewn cymaint o bryder am dano, a barodd imi ganu rhywbeth yn debyg i hyn:—

Ydlanoedd da eleni—eto gaed,
Teg odiaeth yw'r helmi
O ddrud nwydd a roed i ni
O law hynaws haelioni.

Haelioni ein Rhi ini rodd—gnwd
Ac hin deg estynodd; [da,
I'n cynal—ni ddiofalodd,
A lli'r gwlaw yn llwyr a glodd.

Diolwch yw ein dyled,—O taler
Teilwng . . .
Hyd man yna yr es i."

"Wel, fe aethoch yn burion," ebai Mali; "oes, mae *gyda* chi le i ddiolch hefyd, pe bai y 'Cranc' yma sy'n eich trin chi yn yr YMOFYNYDD yn cael rheoli *tap* "spigot y gwynt a spigot y gwlaw,' fe fyddai hi yn eitha drwg arnoch chi ffarmers Sir Aberteifi."

Ar hyn rhodd yr hosan i gadw yn nrar seld, a bant a hi i'r llaethdy at ei gorchwyl. Pan oeddwn innau ar orphen darllen "Llythyr y Cranc,' dyna'r cwn ar y clos yn cyfarth, y drws yn agor, a John Brynerfin yn dod mewn i'r gegin. Edrychai yn wyllt, a chyda ei fod wedi eistedd i lawr, heb gymaint a dweyd gair am y tywydd, "Dïan," meddai, gan bwyntio'i fys at yr amlen goch, "mae ewinedd llym gan y 'Cranc' yna, ond wfft i'r defnydd mae yn wneud o honynt. Fel y neidr yn chwedl Esop, brathu ei gymwynaswyr y mae yntau. Gwawdio'r gweithgar,—gorchwyl hollol anheilwng. Ond chwareu teg iddo, efallai, hefyd. Onibae ei fod yn gweled pethau yn hollol groes i'r fel y maent, nid cranc fyddai fe. Gnewch chi sylw o beth 'rwy'n weyd wrtho chi, y gwaith sydd yn cerdded fwyaf *brisc* drwy yr holl wlad yn awr yw lladd amser. Gwobrwyir yn dywysogaidd y neb ddyfeisio gynllun newydd at wneud hyn yn effeithiol. Yn lle edrych ar waith fel y rhent ddyledus ar bawb i gymdeithas am gael byw ynddi, yn rhy aml dirmygir ef, yn enwedig os mai llaw-waith fydd. Mewn gwirionedd edrychir arno fel physig, i'w gymeryd yn achlysurol, mewn dognau bychain. Yn yr Eden y mae y byd yn prysuro tuag ati yn bresenol, bydd pawb yn byw heb weithio, a phawb yn cynal pawb eraill. Crancod fyddan nhw i gyd yno.

"Da whare,' John," gwaeddai Mali o'r llaethdy, "'rych chi'n gweyd calon y gwir. A meddyliwch am y difyrwch mae e'n wneud o honom ni a'r tywydd wedyn. Beth yw testyn ei siarad e' a Mrs. Cranc, wn i? Y ffasiwn ddiweddaf, mi wranta, neu ryw benwendid o'r fath."

"Caton pawb," atebai John, "heb astudio'r hin, pa lewyrch all fyth ddod o ffarmwr? Y tywydd yw ein meistr ni, ei wên yw ein llwydd, a'i wg yw ein dinystr. Efe yw ein newyddiadur dyddiol ni; ac mae rhagluniaeth wedi gwneud darpariaeth i ddosparthu yr argraffiad diweddaraf o hyd yn rhad i ni. Diolchwn fod yna Oruwchreolwr holddoeth yn gofalu fod yr hyn sydd oreu er ein lles yn cael ymddangos ynddo bob dydd."

Wedi i Mali i roi tywarchen neu ddwy o'r whyntell wrth gefn y tân,

ac i John i oleuo ei bibell, gwnadd yr olaf amnaid oedd yn gofyn yn amlwg am fy marn i ar y pwnc.

"Y peth sy'n y nghlwyfo i waetha yw y pethau mae e'n weyd am bregethwyr a phregethau," meddwn inau ar hyn. "Yr oeddwn i wedi arfer meddwl bob amser mai y nhw yw ffyn yr ysgol ar hyd yr hon y mae Cymru wedi dringo i fyny o bydew difaterwch ac anfoesoldeb. Ond nid yw Cymru wedi cyrhaedd y *top* eto; *ar* yr ysgol y mae hi; a'r ffordd sicraf i'w darostwng, yn ol fy marn i, yw torri'r ffyn y saif arnynt o dan ei thraed. Mae un peth yn ddigon amlwg, ta beth,—'dyw'r ysgrifenydd ddim yn gyfarwydd â ffyrdd ein pregethwr *ni*."

"'Does dim dadl am hyna," torai John i fewn, "nid oes angen amddiffyn ein gweinidogion; 'paentio'r lili' fyddai hyny, ac fe alla'n nhw ei wneud eu hunain yn llawer gwell nag y medrwn i. Ond fachgen," ychwanegai, gan godi i fyn'd adref, "allech chi ddim 'mynd i hedfan' tipyn uwch ben y pwnc,--ar edyn yr awen, wyddoch."

"Na," meddai Mali dan chwerthin pan oeddwn yn mynd allan gam neu ddau, "mae'n rhy hwyr iddo hedfan yn mhell iawn heno."

Diweddwyd yr ymgom ym mwlch y clos gan yr awen fel hyn:—

Ow! 'r 'Cranc' ry 'i grafanc ar grefydd;—a'i bawen
'E bwya'r amaethydd:
Tored rhyw ddewr anturydd
Ei wine' fo—ac iawn fydd.

DEIO, CNWCYRHWRDD.

TAIR WYTHNOS AR Y *VAN*.

GAN Y PARCH D. G. REES, PENYBONT-AR-OGWY.

Parhad o Rhifyn Medi (tud. 213).

Aethum gyda'r *Van* o Gorseinon i Dreforis, a chyflwynais hi yno i ofal y cenhadwr, sef y Parch. John Barron, o Ashton-under-Lyne. Cerddais yr oll o'r ffordd rhwng y ddau le a enwais, gan gymeryd ychydig hamdden yn mhentref Llangyfelach, a sylwais gyda thipyn o gywreinrwydd ar eglwys a chlochdy y llan yn sefyll, y naill gryn bellder oddiwrth y llall fel pe baent wedi cael ffrae a'u gilydd; ond er ceisio dyfalu, methais a ffurfio unrhyw syniad yn fy meddwl am yr hen glochdy Normanaidd wedi cael ei adael fel hen fab gweddw wrtho ei hun.

Ar ol wythnos gartref unais a'r *Van* eto ar y 30ain o Orphenaf yn Briton Ferry. A rhaid cyfaddef mai dyma yr unig le y trodd fy ngenhadaeth allan yn siomedigaeth i mi. Ond yr oedd lle'r *Van* y cyfryw ag oedd yn gwneud cyfarfod yn anmhosibl. Yr oedd ar gydiad dwy rheilffordd. Yr oedd y *shunto* ar y naill law, a'r trens yn pasio yn barhaus ar y llall, yn gwneud siarad yn hir allan o'r pwnc. Yr oedd yno tuag ugain o bobl mewn oedran, a thua yr un nifer o blant lled stwrllyd. Ac er fy mod wedi cael fy nonio ar y dechreuad a llais gweddol gryf, a hwnw wedi cael ei

arfer yn fy nyddiau boreu fel bugail ar fryniau Gwenog yn galw ar "Carlo" a "Cwito," ac wedi cael llawer iawn o ymarferiad ar siarad yn yr awyr agored yn ystod y deuddeg mlynedd diweddaf, gorfu i mi roddi i fyny ar ol tuag ugain mynud o ymdrech aneffeithiol. Nid oeddwn yn medru clywed fy llais fy hun. Aeth Mr. Barnes a minau nos dranoeth allan i brif heol y lle, a chawsom dyrfa o tua chant a haner, a chawsom gyfarfod da iawn gyda llawer o ofyniadau, a gwerthwyd nifer go dda o draethodynau. Ond nid yw y cyfarfod mor effeithiol oddiwrth y *Van* ag ydyw arni. Ys dywed Mr. Barnes: "*The Van is its own best advertisement.*" Ar yr egwyddor mae'n ddigon tebyg fod pob ceiliog yn canu yn herfeiddiol a gwrol ar ei domen ei hun; felly yr wyf finau yn teimlo yn fwy gwrol a herfeiddiol ar y *Van*; oblegid yno yr ydym ar dir Undodaidd a phedair olwyn *solid* Undodaidd dan ein traed, wedi talu am danynt ag arian Undodiaid; ond pan yn sefyll ar stol fenthyg ar gongl yr heol, yr ydym yn agored i bob math o ymosodiad, ac i gael ein camgymeryd am Formoniaid o Utah, neu ganghen newydd o'r *Salvation Army*, neu yn waeth byth—*Tariff Reformers*.

Yr oedd y *Van* i fod yn y lle hwn dros y Sul. Ond cynygiais mewn *Council of War* a gynhaliwyd yn y *Van* ar ol y cyfarfod, ein bod i symud i Gastellnedd mor fuan ag oedd modd bore dranoeth, cytunodd Barnes a'r cynygiad gyda brwdfrydedd. Yn gynar dydd Sadwrn gwelwyd ni yn y *Cattle Market* yn y dref uchod. Nid oedd y man hwn yn cael ei nodweddu yn neillduol fel un persawrus. Yr oedd yn amlwg hefyd fod yno dipyn o *competition* i fod. Yr oedd yno ddau farsiandwr mewn cyllyll a ffyrcs, yn gwaeddi rhinweddau eu nwyddau nerth eu cegau. Yr oedd yno un meddyg llysiau yn crochfloeddio fod ei lysiau yn gwella yr holl anhwylderau y mae y cnawd dynol yn agored iddynt. Yr oedd yno ddeintydd (*dentist*) a chanddo lais fel tarw Bashan; a marsiandwr arall yn gwerthu *British Canaries*. Heblaw llawer o ferched a gwragedd yn gwerthu scadan.

Ac yn ddiamheu y mae llawer un o ddarllenwyr yr YMOFYNYDD yn meddwl fod "Tair wythnos ar y Fan" yn golygu tair wythnos o wyliau pleserus, i fyned o gwmpas fel cynifer o *Gipsies* heb ddim i'w wneud. Ofnais ein bod wrth symud i'r dref hon wedi symud oddiar y pentan i'r tân. Ond er gwaethaf y cyfan, cawsom gynulliad o tua phum cant, gwrandawiad da, llawer o ofyniadau, a gwerthu dros werth ddeg swllt o draethodynau. Gan fod y Farchnad yn cael ei chau ar y Sul, aethum inau adref o'r ornest mor grug a'r frân, ond mor ddedwydd a'r ehedydd.

Penderfynais beidio mynd yn ol dydd Llun gan ei bod yn *holiday*, gan feddwl y buasai pawb yn mwynhau eu hunain ar lan y môr, neu ben y mynydd, ond cyfeiliornais yn hyn yn fawr. Bu llawer o bobol wrth y Van gan ddisgwyl cael cyfarfod, a rhai o honynt yn weision ar y rheilffyrdd, na allent fod yn bresenol ar unrhyw ddydd arall. Cafwyd cyfarfodydd rhagorol eto nos Fawrth a nos Fercher. Y noson olaf yr oedd yno rhwng saith ac wyth cant o bobl, a dyddordeb mawr yn cael ei gymeryd yn y gofyniadau a'r atebion iddynt. Bu amryw yma yn gofyn pa bryd yr oeddym yn amcanu talu ymweliad arall a'r lle; a chawsom argraff fod y dref ganolog hon yn un ag a ddylai gael ein sylw buan eto. Y mae yn ganolog i ardal boblog, a chredaf ei bod yn un o'r manau ag y dylid gwneud rhyw ymdrech i ddilyn cenhadaeth y *Van* gyda'n Efengyl Resymol, Rydd. Dyna fy nhair wythnos ynte ar ben. Ni ddywedaf lawer am y ddwy noson y bum ar y *Van* yn Tonypandy, na'r wythnos yn Merthyr yn cynorthwyo Mr. Whittaker, na'r tair noson eto yn y Cefn yn cynorthwyo Mr. Evans, Aberdar, onid ydynt wedi eu croniclo yn hanes y genhadaeth yn y *Christian Life?* Ond diolchaf i'r frawdoliaeth oll yn

y lleoedd hyny am eu caredigrwydd a'u lletygarwch :—Mr. a Mrs. Gomer Ll. Thomas ; Mr. a Mrs. J. R. Evans, a thai agored i genhadwyr Undodaidd bob amser ; Mr. a Mrs. Whiting a'u *pantry* a'r bwrdd at ein gwasanaeth. Nid yn rhwydd yr anghofiaf y prydnawn difyr dreuliais yn nghwmni y brawd oedranus, amlochrog ei feddwl, ieuanc ei yspryd, John Lewis o Dowlais a Maggie, ei ferch, siriol a serchus, yr hon sydd yn ymgeledd gymwys i'w thad, oddiar pan y collodd ei gydmar bywyd. A'r olaf a enwaf ond yn mhell o fod y lleiaf yn eu caredigrwydd i'r cenhadon, Mr. a Mrs. Hathren Davies. Yr wyf yn meddwl erbyn hyn mai gan Mr. Davies y mae y *record* o ddyddiau ar y *Van*, ond y mae genyf le i ymffrostio fy mod yn ail lled agos iddo gyda fy neunaw ar hugain o ddyddiau.

Ac yn awr am ychydig sylwadau ar y Genhadaeth yn gyffredinol, a'r argraffiadau wnaed ar fy meddwl gan fy mhrofiad ar y *Van*. Y mae y bobol, pa un a ydynt yn mynychu addoliad cyhoeddus ai peidio, yn cymeryd dyddordeb dwfn mewn materion crefyddol. Ar y cyfan y maent yn awyddus am gael gwedd ar grefydd sydd yn ei dwyn i gyffyrddiad agos a bywyd yr Ugeinfed Ganrif. Ond y mae dosbarth lluosog yn cymeryd dyddordeb dibendraw mewn pynciau duwinyddol fel y cyfryw. Gallaf ddweyd fod duwinyddiaeth yn *absorbing passion* gan nifer luosog o bobol yn rhai o'r lleoedd y bum ynddynt. Yr oedd hyn yn beth nad oeddwn yn ei ddisgwyl ac yn syndod i mi. Y mae yna anmharodrwydd ar ran y rhai ydynt y tuallan i'r eglwysi i gofrestru eu hunain tan faner unrhyw enwad. Y mae awdurdod yr hen gredoau *wedi* mynd. Y mae *metaphysics* person Iesu Grist yn ei berthynas a Duw yn liaesu eu gafael ar *feddwl* y bobol, ond y mae Iesu Grist ei hun, a'i efengyl i'r tlawd, yn cadw eu grip ar eu calonau. Y mae hyn yn gwneud yr adeg bresenol yn *crisis* yn hanes yr eglwys Undodaidd. Y mae y meusydd yn wynion i'r cynhauaf. Na fydded i ni oedi gan feddwl y daw *patent reaper and binder machine* i'n meddiant yn y dyfodol, ond cymerwn afael yn y cryman sydd wrth law, ac awn i'r maes a medwn.

SOSIALAETH.

Nid oes efallai yr un pwnc yn ein dyddiau ni yn nghylch yr hwn y ffyna cymaint o gamddealltwriaeth a thestyn yr erthygl hon. Cysyllta llawer na wyddant ond y nesaf peth i ddim am y mater yr enw Sosialaeth â'r dychrynfeydd gwaethaf—a dadymchweliad pob llywodraeth sefydledig a dienyddiad pob person, neu y prif bersonau, mewn awdurdod trwy foddion llosgbelenau, ag atafaeliad cyffredinol meddianau y cyfoethog ac ar atheistiaeth a'r anfoesoldeb gwaethaf. Mae lle i ofni nad yw pawb a ddarluniant Sosialaeth yn y modd yma yn hollol rydd oddiwrth anogaethau hunanlesiol yn eu hymddygiad. Ereill, a chynwys y dosbarth yma y rhan fwyaf o'r bobl annysgedig yn nghyd a rhai ddylasent wybod yn well, a gredant mai ystyr Sosialaeth yw rhanu holl gyfoeth y wlad yn gyfartal rhwng ei holl ddeiliaid, a gofynant gyda gorfoledd amlwg, " Pe baech yn rhanu yn gyfartal i bawb holl gyfoeth y cyfoethog a'r

tlawd ai ni fuasai yna cyn pen wythnos, neu yn wir cyn pen diwrnod, dlodion a chyfoethogion fel o'r blaen?" Nid yw'r bobl yma yn gwybod dim am y gyfundrefn newydd yr ymdrecha ei phleidwyr ei sefydlu ar y ddaear, neu ni ofynent byth y fath gwestiwn. Nid oes neb yn fwy croes na'r Sosialiaid i'r rhanu cyffredinol yma. Ereill eto a broffesant gredu mai paradwys y segurwyr fyddai Sosialaeth, tra ar yr un pryd yn maentumio na fuasai gan y person unigol un rhyddid i ddadblygu ei bersonoliaeth fel y mynai, heb, fel yr ymddengys, allu gweled fod y ddau osodiad yma yn hollol wrthddweyd eu gilydd. Ac felly yn y blaen; nid oes derfyn bron i'r camddealltwraethau o'r gyfundrefn yma nac i'r gwrthwynebiadau i'w herbyn.

Cyn ceisio rhoi desgrifiad o'r hyn yw Sosialaeth mewn gwirionedd, gadewch i ni daflu cipolwg ar safle bresenol cymdeithas er gweled yr angen anwadadwy sydd am welliant gwreiddiol yn ei chyflwr, am ryw gyfundrefn wna i ffwrdd yn sicr os yn raddol â'r anghyfiawnderau dybryd yn ein gwlad a gwledydd ereill yn bresenol. Ar un pen i'r ysgol gymdeithasol gwelwn y gor-gyfoethog—ychydig mewn nifer, yn byw ar y cyfan fywydau segur, gwastrafflyd, cyflwynedig i loddest a phleserau o bob math bron, na wyddant ac ni hidiant fawr am gyflwr eu cyd-ddynion ac a dreuliant, gyda'u gilydd, fywydau o'r mwyaf diwerth. Ni chynyrchant ddim neu y nesaf peth i ddim daionus, ond difäant a gwastraffant ffrwyth goreu'r ddaear. Ar y pen arall i'r ysgol cawn y tlawd a'r anghenus—y llaweroedd, ydynt fel rheol yn gweithio yn ddiwyd a dyfal o foreu hyd hwyr, o ddydd i ddydd ac o flwyddyn i flwyddyn, yn fynych o dan amgylchiadau hollol anffafriol a niweidiol i iechyd ac eto ydynt ar ddiwedd eu dyddiau mor dloted ag ar eu dechreu. Ac nid dyna'r oll; ar awdurdod ein diweddar Brifweinidog (coffa da am ei enw) gwyddom fod yn y wlad yma yn unig ryw ddeg neu ddeuddeg miliwn o bobl yn byw yn barhaus ar linell newyn, h.y., heb ddigon o ymborth angenrheidiol i gynal y corph a'r meddwl mewn cyflwr addas i waith, tra y mae llawer yn methu cael digon o angenrheidiau i gynal bywyd o gwbl ac felly yn marw o newyn, ac ereill eto yn rhoddi terfyn ar eu bywyd am nas gallant gael gwaith er enill cynhaliaeth iddynt hwy a'u teuluoedd. Tra mae llawer yn methu cael gwaith mae llaweroedd ereill yn gorfod gweithio oriau hir-feithion—anghymedrol hir—bob dydd am gyflogau gwaradwyddus, y fath yw'r drefn neu'r diffyg trefn mewn cymdeithas heddyw. Yn enwedig y mae hyn yn wir am fenywod, llawer o'r rhai ydynt yn gorfod gweithio un awr ar bymtheg neu ragor y dydd yn y crefftau hyny a elwir y *sweated industries* ac am gyflog ar gost eu hunain o ryw goron i chwech swllt neu saith yr wythnos—yr hyn sydd yn warth bythol i unrhyw wlad a broffesa fod yn Gristionogol.

Rhwng y ddau ddosbarth hwn y mae'r gweddill o'r boblogaeth, h.y., y cymharol gyfoethog, y cymharol dlawd a'r rhai nad ydynt yn gyfoethog nac yn dlawd. Efallai y bydd ychydig ffigyrau i wneyd y mater yn glirach i'r darllenydd. Cyfrifir fod yn y wlad yma ryw gymaint dros bedair miliwn a deugain o drigolion ac fod eu derbyniadau blynyddol oddeutu deunaw cant o filiynau o bunnau. O'r swm yma derbynir dros chwech can' miliwn gan oddeutu 1,250,000 o bobl, dros ddau can' miliwn a haner gan oddeutu 3,750,000 a'r gweddill naw can' miliwn neu ychydig yn rhagor gan oddeutu 39,000,000 o bobl, ac o'r olaf mae derbyniadau pob teulu a'u gwna i fyny yn llai na £160 y flwyddyn—lawer iawn yn llai yn y mwyafrif o achosion. Bernir yn mhellach y cyrhaedda holl gyfoeth y wlad y swm anferth o £11,500,000,000 o leiaf, ac fod pum' miliwn allan o'r pedair miliwn a deugain yn berchen ar oddeutu £10,900,000,000 o hono, hyny yw, mae yn agos dwy ran ar hugain allan o bob tair rhan ar hugain o gyfoeth

Prydain Fawr a'r Iwerddon yn meddiant y nawfed ran o'r boblogaeth. Bydd oddeutu saith can' mil o bobl ar gyfartaledd farw yn y deyrnas yma bob blwyddyn; o'r nifer yma dim ond rhyw bedwar ugain mil a dwy adawant eiddo gwerth ei drethu gan yr awdurdodau, tra y gâd oddeutu chwech cant a deunaw mil y byd yma heb ddim, neu y nesaf peth at hyny. Ac, i fyn'd ychydig yn fwy i fanylion, o'r pedwar ugain mil a dwy gadawa oddeutu triugain a deunaw mil eiddo gwerth oddeutu £81,000,000 ar eu hol, tra y gâd y gweddill pedair mil dros £218,000,000. Nid posibl hyny, neu tebyg yr äi llawer a'u golud ganddynt i'r byd a ddaw. Fe wêl y darllenydd yn awr, os na wyddai o'r blaen, mor anghyfartal y rhenir cyfoeth y wlad ac fel y mae wedi pentyru yn nwylaw rhyw ddyrnaid bychan o'r boblogaeth; mae yr un peth yn wir i raddau mwy neu lai am wledydd ereill.

Pwnc arall pwysig iawn yn y cysylltiad yma yw'r tai yn mha rai mae'r bobl yn byw neu yn gorfod byw. Ni raid dweyd dim am anedd-dai'r cyfoethog; maent hwy, fel rheol, yn bobpeth ddymuna eu perchenogion iddynt fod, neu os nad ydynt mae'r gallu ganddynt i'w cael felly. Er fod llawer o le i wella arnynt mae tai'r dosbarth canol gan mwyaf yn ddyoddefadwy er gwaethaf eu hagrwch yn fynych a'u gwneuthuriad shipris. Ond pan ddeuwn at eiddo'r dosbarth gweithiol mae'n arswydus ac yn gywilyddus meddwl fod bodau dynol yn gorfod byw yn y fath dylcau ag ydynt yn aml. Ca anifeiliaid yr yswain, fel rheol, well tai i'w diddosi na'r gweithwyr ar ei dir. Mae llawer wedi ei wneud yn y cyfeiriad hwn, ond y mae wmredd i'w wneud eto. Nid yn unig y mae'r tai yn wael o wneuthuriad ac yn mhob modd arall bron, ond y maent, fel rheol, lawer yn rhy fach i gynwys y rhai sydd yn gorfod byw ynddynt. Ar adeg cyfrif diweddaf y boblogaeth saith mlynedd yn ol yr oedd yn nhrefi Lloegr a Chymru yn agos i ddau can' mil a haner o gartrefi (mewn enw, beth bynag) yn cael eu gwneud i fynu o un ystafell yn unig, a dros bum' can' mil a haner o ddwy ystafell; ac mae'n waeth na hyny—gryn lawer—yn yr Alban—er engraifft, o drigolion Llundain mae un o bob saith yn byw ragor na dau yn yr un ystafell, ond yn Edinburgh mae un o bob tri yn byw felly, ac yn Glasgow un o bob dau, tra yn yr oll o'r Alban mae yn agos haner miliwn o bersonau yn byw mewn tai nad oes ganddynt ond un ystafell yr un. Ond nid dyna'r gwaethaf, er cynddrwg yw; saith mlynedd yn ol—hyny yw, amser cyfrif y boblogaeth, 'roedd dros bedwar ugain a thair mil (83,197 i gael bod yn gywir) o drigolion Glasgow yn byw *ragor na phedwar yn yr un ystafell*—hyny yw, ychydig dan unarddeg o bob cant o honynt, tra mewn lle cyfagos o'r enw Coatbridge 'roedd yn agos bump ar hugain o bob cant yn byw felly, ac yn Airdrie dros ddau ar hugain. A yw'r darllenydd yn sylweddoli beth mae hyn yn feddwl? Ofnaf nad yw, gan mwyaf. Meddylia fod y gofynion a'r angenrheidiau cyntaf er cael iechyd da yn amhosibl: meddylia fod pob ymgais at weddeidd-dra yn amhosibl pan raid cyflawni holl orchwylion bywyd yn yr un ystafell—yr ystafell lle y gwêl y baban ei olwg gyntaf o'r byd, a'r hen wr neu'r hen wraig, neu pwy bynag hawlia angeu eu golwg ddiweddaf o hono. Dychmyged y darllenydd, os y gall, gyflwr y fath deulu pan fo afiechyd yn y ty, neu dwymyn heintus, neu pan fo un o'r anwyliaid wedi gado'r fuchedd hon. Heria y fath amgylchiadau bin yr ysgrifenydd. Mae plant ddygir i fynu yn y fath gartrefi (?) yn ysgafnach ac yn llai eu mhaint a'u taldra na phlant fegir mewn cartrefi dwy ystafell, a'r rhai yma eto yn llai na'r rhai mewn tai o dair ystafell—er engraifft, yn ol ymchwiliad manwl wnawd gan Fwrdd Ysgol Glasgow yn 1905 cafwyd allan y ffeithiau canlynol: pwysau cyfartal bechgyn o bump i ddeunaw oed wedi eu dwyn i fyny mewn tai un ystafell oedd 52.6 pwys, mewn tai dwy ystafell 56.1, tair ystafell 60.6, pedair

ystafell ac i fyny 64.3; a'u taldra perthynol oeddynt 46.6, 48.1, 50.0 a 51.3 o fodfeddi. Y ffigyrau am y merched o'r un oedran oeddynt: *pwysau*, 51.5, 54,8, 59.4 a 65.5 pwys; *taldra*, 46.3, 47.8, 49.6 a 51.6 modfedd. Fe wêl y darllenydd felly yr effaith niweidiol ga natur anfoddhaol eu cartrefi ar y plant, ac nid yw'r effaith fawr, os dim, llai ar y bobl mewn oed.

Effaith anymunol arall y gyfundrefn bresenol o gymdeithas yw y bobl hyny a elwir yr *unemployed*—y diwaith, y segur—nid am nad ydynt yn dewis gwaith ond am na allant ei gael. Mae rhyw nifer neillduol o bobl allan o waith yn gwbl angenrheidiol i beirianwaith cymdeithas fel ag y mae y dydd heddyw er mwyn i'r meistriaid gael cadw eu gallu a'u dylanwad dyladwy (yn ol eu barn hwy) ar y gweithwyr; ond pan änt mor lluosog fel ag i uno a'u gilydd a chynal cyfarfodydd er hawlio gwaith, er gofyn am yr hawl i fyw yn lle marw yn dawel a digrwgnach yn eu cartrefi, yna teimlir y dylid gwneud rhywbeth – nid i ddiddymu'r drwg yn gyfangwbl o'r wlad, o nage! nid yw ein gwleidyddwyr wedi cyrhaedd y safle yma eto, ond i liniaru rhyw ychydig arno trwy barotoi cawl yn rhad i rai o'r trueiniaid, neu anfon ambell i deiliwr neu oriadurwr neu rywrai cyffelyb (gydag, wrth gwrs, weithwyr cyffredin) i wrteithio rhyw ddarn diffaith o dir neu i wneud rhyw waith arall hollol anghyfaddas fynychaf. Tebyg a phe b'ai 'r meddyg er ceisio gwella rhyw glefyd peryglus i rwbio'r màn dolurus â dail troed yr ebol! Mae pwnc y diwaith wedi dod yn ddyrysbwnc yr ugeinfed ganrif, ac ni ellir ei ddadrys yn foddhaol a therfynol ond mewn un ffordd—trwy roddi yn raddol mewn grym egwyddorion y ffurf Sosialaidd. Dim ond yn nhrefydd mawrion ein gwlad y gwelir canlyniadau y gyfundrefn gyfalafaidd *(the capitalist system)* yn eu hagrwch cynhenid. Nis gall fod, mi gredaf, gan y gwladwr, nad yw erioed wedi gadael gororau ei sir enedigol, amgyffred o honynt; rhaid iddo fyn'd i Lundain neu Lerpwl neu Glasgow, neu ryw dref gyffelyb, cyn gallu ffurfio meddylddrych am danynt. Yn mhob un o'r rhai yma mae miloedd lawer o ddynion o bob oedran allan o waith hâf a gauaf (yn enwedig yr olaf), gwanwyn ac hydref (nid yr un rhai yn gywir o hyd, wrth gwrs), canoedd, ie miloedd yn y trefydd mwyaf, heb un enw o gartref, llawer yn nghyd a'u gwragedd a'u plant yn dyoddef arteithiau dirdynol newyn, ac nid ychydig yn rhoi fyny'r ymdrech anghydraddol trwy farwolaeth wirfoddol neu anwirfoddol (yr olaf fynychaf). Yma, yn enwedig yn yr hwyr, ac yn neillduol ar nos Sadyrnau, y gellir gweled golygfeydd digon i dori'r galon gareg—dynion a menywod carpiog, gwelw eu gwedd, a edrychant fel pe b'ai pob pelydryn o obaith wedi eu gadael, plant bychain a mawr troednoeth a choesnoeth hyd yn oed yn nyfnder y gauaf yn y rhew a'r eira yn ysgrynu ar yr heolydd, a merched ieuainc diriwed o gymeriadau pur yn cael eu gyru gan rym amgylchiadau i fyw bywyd atgas y stryd, i werthu eu gwyryfdod, eu heiddo mwyaf gwerthfawr, efallai nesaf at eu bywyd, er cynal corph ac enaid yn nghyd, canys "pob peth a rydd dyn am ei einioes." Peth arall cyffredin iawn, fel sydd wybyddus, yn ein trefydd mawrion yw meddwdod, ac y mae hyn, mor bell ag y mae'r dosbarth gweithiol yn myned, i'w briodoli ran amlaf yn ddiameu i'r amgylchiadau truenus yn mha rai y maent yn byw. Hawdd iawn chwilio bai ar y bobl adfydus hyn a dweyd na ddylasent wneud fel hyn ac y dylasent wneud fel arall, ond a ydym ni erioed wedi gofyn i ni ein hunain faint gwell fyddem ni pe yn eu lle? Cyn beiddio eu condemnio, ynte, ddarllenydd, cais amgyffred eu cyflwr gresynus, yr holl ddylanwadau anffafriol i rinwedd yn eu bywydau a'r ymdrech ddiflino olyga i ddod i fyny i safon gyffredin moesoldeb, ac os na elli yn gydwybodol ddweyd y byddai dy ymwareddiad di yn well dyro dy gydymdeimlad iddynt ac nid dy gerydd. "Na fernwch fel na'ch barner."—*(I'w barhau).*

Y CYFARFODYDD CHWARTEROL.

Cynhaliwyd cyrddau chwarterol yr Hydref yn Nhapelygroes ar y 30ain o Fedi a'r 1af o Hydref. Yr oedd yn bresenol y gweinidogion canlynol: y Parchn. R. J. Jones, M.A., Aberdar; J. Davies, Alltyplaca; R. C. Jones, Llanbedr; J. H. Davies, Y.H., Cefn; M. Evans, Aberdar; D. G. Rees, Penybont; T. A. Thomas, Llandyssul; E. O. Jenkins, Llwyn; L. Williams, Rhydygwin; E. E. Jenkins, Walmsley; Proff. Moore, M.A., Caerfyrddin; L. Morgan, Clydach; yn nghyd a'r myfyrwyr a ganlyn: J. Davies, Manchester; Glyn Evans, Aberystwyth; Herbert Jones, Llwynrhydowen; a Tom Lloyd, Capelygroes. Pregethwyd nos Fercher gan y Parchn. L. Morgan a Glyn Evans. Hwn oedd ymweliad cyntaf y ddau gyfaill hyn a Chapelygroes, ac yr oedd eu lleisiau felly yn ddieithr i'r gynulleidfa. Rhoddodd y ddau foddlonrwydd cyffredinol. Boreu dydd Iau, am naw o'r gloch, cawd y pwyllgor arferol, pryd y daeth amryw faterion dan sylw. Tebyg y rhoddir y manylion gan yr ysgrifenydd. Am ddeg, dechreuwyd y gwasanaeth gan y Parch. T. A. Thomas, a phregethwyd gan y Parch. R. J. Jones, M.A. Da oedd gan y gynulleidfa luosog oedd wedi dod yn nghyd—yr hon a wneid i fyny o gynrychiolwyr o'r rhan fwyaf o'n cynulleidfaoedd yn Ngheredigion—weled yr hen gyfaill yn edrych mor rhagorol, er nad oedd ei iechyd o'r fath oreu y dyddiau hyny, a'i glywed yn siarad mor nerthol a hwyliog ar y testyn penodedig—"Trem dros weinidogaeth o yn agos i haner canrif." Er iddo siarad am awr gyfan, teimlad yr oll y bum yn siarad â hwynt ar ol hyny oedd y gallent ei fwynhau am gryn amser yn mhellach. Sylwasom ar yr adeg nad oedd un gair o'r bregeth yn ysgrifenedig, ac ni chymerasom ninau nodiadau o honi; felly ni ellir rhoddi crynodeb o'i chynwys yma. Ond ai nid posibl ei chael gan yr awdwr, gydag ychydig o ychwanegiadau, yn gyfres o erthyglau yn yr YMOFYNYDD? Y mae gwasanaeth o haner canrif—yn enwedig gweinidogaeth yn cyrhaedd yn ol dros yr haner canrif y mae ein hen gyfaill wedi cael y fraint o weinidogaethu yn ei chwrs,—yn gyfoethog o ddigwyddiadau ac o fudiadau dyddorol. Gobeithiwn nad dieffaith fydd yr awgrymiad uchod. Ar ol i Mr. Jones orphen, rhoddodd gweinidog y lle roesawiad i'r Proffeswr Moore ar ei ymweliad cyntaf a'r gymydogaeth, a galwyd arno i anerch y gynulleidfa, yr hyn a wnaeth mewn Saesneg y gallai y rhan fwyaf o'r gynulleidfa ei ddeall.

Dechreuwyd gwasanaeth y prydnawn gan y Parch. R. C. Jones, a phregethwyd gan y Parchn. D. G. Rees, Penybont, ac M. Evans, Aberdar. Y mae Mr. Rees bellach yn hen adnabyddus i'n cynulleidfaoedd; ac y mae yn dyfod yn fwy derbyniol o hyd. Llais dieithr oedd Mr. Evans, ond rhodd foddlonrwydd cyffredinol. Yn marn un o enwad arall a'i clywodd, "rhoddodd i'r gwrandawr myfyrgar bryd o fwyd y cymer amser hir iddo i'w dreulio." Yn yr hwyr dechreuwyd y gwasanaeth gan y Parchn. E. O. Jenkins, a phregethwyd gan y Parchn. J. H. Davies, Y.H., Cefncoed, a J. Davies, Alltyplaca. Yr oedd y ddau i fyny i'w safon uchel arferol, ac yr oedd y ddwy bregeth yn derfyniad hapus a dymunol i gyfres ardderchog o bregethau. Cawd cynulliadau ardderchog yn mhob un o'r oedfaon; bernir fod oddeutu 400 yn bresenol nawn Iau. Yr oedd pob peth yn cydweithio i wneud y cyfarfodydd yn llwyddiant—y tywydd, nifer y pregethwyr, lluosogrwydd y cynulleidfaoedd, y canu, a'r darpariadau ar gyfer y dieithriaid. Cyfeiliwyd ar yr offeryn yn ddeheuig

fel arfer gan Miss Grace Jenkins, Blaenwaun.

Y Pwyllgor.

Y Parch. Lewis Williams, yr Islywydd, yn y gadair. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diweddaf, a derbyniwyd adroddiad y Trysorydd, yr hwn oedd wedi ei archwilio. Pasiwyd fod yr hyn sydd fyr heb ei danysgrifio at Genhadaeth y *Van* i gael ei dalu allan o gyllid y Gymdeithas. Cafwyd ar ddeall fod yr oll o'r llyfrau Emynau wedi eu gwerthu a phasiwyd ein bod yn gosod o'r neilldu eleni £10 fel paratoad gyferbyn a dwyn allan lyfr newydd. Pasiwyd talu treuliau teithio pregethwyr yn mhob cwrdd, ac nid unwaith y flwyddyn fel yn bresenol. Cynhelir cyfarfodydd chwarterol y Pasc yn Pantdefaid, a'r rhai blynyddol yn Capelybryn, Cwrtnewydd. Cyfarfu cynrychiolwyr y ddwy Gymdeithas ddewiswyd er dwyn allan draethodynau Cymreig, &c. Pasiwyd ein bod yn cyhoeddi llyfr y Parch. J. T. Sunderland ar y Beibl, a dewiswyd y Parch. J. Hathren Davies i'w gyfieithu.

MARWGOFION.

MEDI 21, yn 89 mlwydd oed, John Williams, Rhydyfro. Claddwyd y dydd Iau canlynol, wrth gapel Saron, Rhydyfro; gwasanaethwyd gan y Parch. J. Price, y gweinidog. Cafodd ein hen dad parchus angladd anrhydeddus, a chollodd cylch helaeth o gydnabod gyfaill a brawd didwyll yn mhersonoliaeth fy ewythr John. Bydded i'w ferch, gyda'r hon y bu fyw y rhan olaf o'i fywyd, i ymgysuro dan yr amgylchiadau helbulus; nodded gaffo y plant oll, yn nghyd a phawb perthynasau, i sugno eu cysuron o'r ffynonell ddihysbydd.

MEDI 25, bu farw Herbert Emlyn Evans, mab i'r Henadur a Mrs. Evans, Ffynonfair, Llanbedr, yn 19 oed. Ni chafodd ond prin pythefnos o gystudd, ond er yn fyr, bu yn un caled iawn. Yr oedd ei symudiad felly yn ddisymwth ac annisgwyliadwy. Un o rodiad ardderchog, o duedd weithgar, o yspryd siriol, oedd ein cyfaill ieuanc; ar yr aelwyd gartref, wrth ei waith ar ei fferm, yn mhlith ei gyfeillion lluosog, yr oedd yn wastad yr un—yn hynaws a siriol a thueddol i edrych yn wastad ar yr ochr oleu i bob peth. Anmhosibl oedd i'r sawl ddelai i gyffyrddiad agos ag ef lai na theimlo dylanwad y sirioldeb a'i nodweddai. Anfynych iawn, hefyd, y gwelid ei le yn yr addoliad ar y Sul yn wag; ac nid yn unig, nid oedd ei le ond anfynych yn wag, ond yr oedd ei holl galon yn y gwaith. Blin yw colli dynion ieuainc fel hyn ar ddechreu eu gyrfa a thymor eu defnyddioldeb. A'r teulu galarus cydymdeimlir yn fawr gan bawb o'u cydnabod. Y mae eu teimladau yn awr yn drist oherwydd ei golli. Ond cysur yw iddynt, yn awr pan y mae wedi eu gadael, fod y goffadwriaeth am dano yn un mor felus—yn felus ar gyfrif ei gymeriad pur a'i yspryd hynaws. Cladd-wyd ei weddillion yn mynwent Capelygroes y dydd Mawrth canlynol, pryd y daeth tyrfa anarferol o luosog yn nghyd i dalu iddo y gymwynas olaf ac i ddatgan eu cydymdeimlad a'r teulu yn eu galar. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parchn. J. Davies, L. Williams, R. C. Jones, a D. Evans. Traddodwyd y bregeth

angladdol yn Nghapelygroes ar y 18fed o Hydref i glywedigaeth tyrfa fawr.

Hynaws fab,—daionus a fu—Herbert
Diarbed o'i allu,
Gyda'i ddyddan gân gu
Oedd dalaf o'r *prudd* deulu.

I'w siwrne aeth ; a llusern Ion—wel-
Yn goleuo'r Afon ; [odd
Hwyliodd heb groes awelon
Foreu 'i haf drwy ferw hon.

GWARNANT.

HYDREF 4, yn 81 mlwydd oed, Rachel Bowen, Trebanos, gweddw y diweddar Dafydd Bowen, yr hwn a fu yn aelod a dyn ffyddlon, yn Gellionen, flynyddau meithion ; goroesodd hi efe tua un flynedd ar hugain, a chafodd hithau brofiad helaeth ac addfed, ac iechyd rhagorol drwy ei bywyd. Codasant ddeuddeg o blant, pa rai sydd wedi eu codi i fyny bob un. Blin genym nad allai yr hon sydd tu draw i'r weilgi ddofn fod yn angladd ei hanwyl fam ; ond hawdd wylo dagrau ar ol mam, serch fod môr rhyngddi a'r fynwent. Hebryngwyd ei theml o bridd, yr wythfed cyfisol, i gladdfa Gellionen ; gweinyddodd y Parch. Gower Richards, Gosen, Trebanos, gan ba un yr oedd ein mam barchus yn aelod er ys llawer o flynyddau, a bu yn ffyddlon i allor Seion yn ei dydd a'i thymor, a sicr yw y gwelir ei sedd yn wag yn mhob man erbyn heddyw. Caffed y plant lluosog, a'r perthynasau oll, nawdd a chyfnerth i ddilyn ol traed Crist-debyg eu parchus rieni.

Wedi bywyd o brofiadau,
Yn yr anial ;
Dianc, dianc, mae ein tadau,
Wedi'r gofal ;
Dianc hefyd mae ein mamau,
Wedi'r ymgyrch,
Ciliodd hwyrddydd y blinderau,
Yn y llewyrch.

BANOS.

Glanio wnaethant ar ororau
Claer y gwynddydd ;
A daw acen eu caniadau
Heibio'r wawrddydd ;
A chydganwn ninau emyn
Gwyn y bywyd,
Yna'r gauaf dry yn wanwyn
Digyfnewid.

ALFA.

HYDREF 4, bu farw Sarah, anwyl blentyn Evan a Jane Evans, Lleehwedd-deri-isaf, yn 3 mis oed, ar ol ychydig oriau o gystudd. Cydymdeimlir yn fawr â'r tad a'r fam yn eu colled a'u siomedigaeth gan bawb o'u cydnabod. Claddwyd ei gweddillion y dydd Mercher canlynol yn mynwent Capelygroes, y Parch. Mr. Owen, ficer Ystrad, a D. Evans yn gwasanaethu.

HYDREF 17, yn nhy ei mab, Mr. Richard Howells, Danyrallt, Abernant Road, Aberdar, Gwenllian, gweddw Mr. Evan Howells, Maesgwyn, gan adael dau fab, dwy ferch, wyrion, a llu o perthynasau a chyfeillion mewn galar. Ganwyd yr ymadawedig Mai 4, 1821 ; yr oedd felly wedi gorphen ei 87 mlwydd. Cafodd iechyd da drwy'r blynyddoedd, a bu'n ddiwyd, gweithgar, a darbodus hyd ryw fis cyn ei hymadawiad. Buasai'n aelod yn yr Hen Dy Cwrdd am lawer o flynyddoedd, ac yr oedd ganddi gof byw am yr aelodau mor bell yn ol ag amser y Parch. Thomas Evans, a dyfodiad y Parch. John Jones i'r lle yn nechreu 1833. Dydd Iau daeth tyrfa fawr yn nghyd, a gwasanaethwyd gan y Parchn. M. Evans, Hathren Davies, a R. J. Jones, M.A., a daearwyd yr hyn oedd farwol yn y gladdfa gyffredinol.

MANION AC HANESION.

CAERONEN.—Ar eu hymadawiad a Chellan anrhegwyd Mr. a Miss Joinson am eu ffyddlondeb a'u gwasanaeth gwerthfawr i'r eglwys yn ystod y tair blynedd y buont yn byw yn y gymydogaeth.

ABERDAR.—Gwasanaethwyd yn yr Hen Dy Cwrdd, Medi 27, gan y Parch. L. Morgan, Clydach ; Hydref 4, gan y Parch. E. R. Dennis, gweinidog newydd Pentre Rhondda a Chlydach Vale, cyfarfodydd diolchgarwch am y cynhauaf ; Hydref 13, cyfarfod agoriadol y Gymdeithas Ymdrechol, anerchiad gan y Parch. J. Park Davies, B.D., ar "Undodiaeth yn y gorphenol, presenol, dyfodol.

RHYDYGWIN.—Nos Wener, Hydref 2, cynhaliwyd cyngherdd, a chafwyd cynulliad lluosog iawn. Buom yn cael ein cynorthwyo mewn cyngherddau yma o'r blaen gan gyfeillion caredig o'r tu allan i'r eglwys, ond cawsom ein cynorthwyo y tro hwn gan y *Gramophone*. I Mr. Jenkins, Dolwern, yr ydym yn ddyledus am hyn, ac nid ydym heb fod yn teimlo yn ddiolchgar iawn iddo ef am ddwyn y *Gramophone*, a gwasanaethu wrtho, ac i Miss Jenkins, ei ferch, am chwareu yr organ. Gwasanaethwyd yn y cyfarfod hefyd gan gôr y lle o dan arwəiniad Mr. Hughes, Rhydyfydir. Cynorthwywyd hefyd gan gantorion ac adroddwyr o Dihewyd, Ciliau, a Trefilan. Gwnaed yn agos i 10p o elw.

CAPELYGROES. — Pleser genym oedd gweled fod M. E. Evans, Felinban wedi cael ei anrhegu â llyfrau gwerthfawr ar ddydd agoriad ysgol newydd Llanwnen, am gadw yr ysgol ddyddiol yn ddifwlch am saith mlynedd. Enillodd hefyd y *Teacher's Candidate Scholarship* am bedair blynedd yn Ysgol Sir Tregaron. Da genym ddweyd hefyd fod yr un ffyddlondeb wedi cael ei ddangos ganddi tuag at yr achos yn Nghapelygroes. Dymunir iddi bob llwyddiant yn y dyfodol. Uwch, uwch, uwchach yr êl.

DYRCHAFIAD. — Nid annyddorol gan rai fydd darllen mai Mr. John Thomas, Y.H., Frondolau, Ceinewydd, fydd Uchel Sirydd, Ceredigion y flwyddyn sy'n dod. Clywsom hefyd mai ei weinidog, y Parch. T. Arthur Thomas, C.C., Golygydd yr YMOFYNYDD, fydd ei *Chaplain*.—R.J.J.

ABERYSTWYTH.—Sul, Hydref 11eg, cychwynodd Mr. E. Glyn Evans ar ei waith fel gweinidog yr eglwys Undodaidd yn y lle uchod. Brodor o Bootle yw Mr. Evans a Bedyddiwr o ran ei ddygiad i fyny, a bu am rai misoedd yn yr Ysgol Ramadegol yn Ammanford gyda'r bwriad o ymbarotoi ar gyfer gweinidogaeth ei enwad. Yn raddol daeth i deimlo nad oedd cyffes ffydd ei enwad ac eiddo ei brofiad a'i reswm yn cydgordio ; a phan ddaeth yn bwnc o ffyddlondeb i enwad neu iddo ei hun penderfynodd roddi ei hunan o flaen enwad ac i chwilio am eglwys a ganiatäi iddo feddwl a llefaru drosto ei hun — felly ymunodd â'r eglwys Undodaidd. Mae bellach wedi ymsefydlu yn Aberystwyth yn fugail ac yn fyfyriwr yn Ngholeg y Brifysgol hyd arholiad y Coleg Undodaidd yn Manceinion yr haf nesaf. Diolch i gyfeillion Aberystwyth am agor y drws iddo. Gobeithio y bydd i lwyddiant mawr eu dilyn hwy a'u gweinidog. Bydded y gyfathrach yn un hapus a defnyddiol.

GELLIONEN. — Prydnawn Sul, Hydref 11eg, cafwyd cwrdd adroddiadol yn y Graig, pan y cymerwyd rhan gan nifer fawr o blant y lle. Cafwyd cwrdd da dros ben, ac nis gallasem beidio sylwi ar brydferthwch naturioldeb ac ieuengrwydd oes, yn nyfalwch ac anesmwythder y plantos gwisgi a diofal. Hefyd, rhanwyd tystysgrifau yr arholiad diweddaf i luaws mawr, a chafwyd mwynhad diail.

Yn yr hwyr cafwyd cwrdd adrodd arall, pan y cymerodd rhai mewn oed ran i adrodd, canu a dadleu, a rhwng y cyfan yr oedd ein llestri meddyliol yn orlawn. Arweiniwyd y cyrddau hyn gan Alfa — efe ydyw ein harweinydd ni.—Da genym fod y festri neu *schoolroom* bron yn barod, a bydd o wasanaeth mawr. Ac os bydd gan rhywun bunt neu ddwy i spario—i helpu brodyr a chwiorydd Gellionen i dalu am yr adeilad prydferth hwn, —gyrer hwynt ar ffrwst i Alfa, neu un o'r swyddogion eraill, a byddwn yn ddiolchgar anghyffredin.

ENGLYN Y VAN ETO. — A wna "Gwlithyn" a "Bate" anfon eu henwau priodol am y wobr i Banos, Meirionydd, Trebanos? gan ei fod yn hen bryd bellach i dynu *pîg* ar bethau.

GRAIG, LLANDYSSUL.—Sul, Hyd. 25ain, derbyniodd y gweinidog bedwar ar ddeg o aelodau newyddion i gymundeb yr eglwys.

DADLEUON Y TRILOBIAID. — DAMEG.—Yn yr hen amser gynt—lawer mwy na chwe mil o flynyddau yn ol—y Trilobiaid oedd yr unig bobl â llygaid ganddynt, ac nid oeddynt hwy ond yn braidd dechreu eu cael, ac yn wir yr oedd rhai, hyd yn oed o'r Trilobiaid nad oeddynt eto yn dangos un arwydd fod llygaid yn dod iddynt. Felly'r cwbl y gallent wybod oedd eu bod yn byw mewn tywyllwch, a'i bod yn bosibl fod yna'r fath beth yn bod â goleuni. Ond o'r diwedd daeth un o honynt mor bell yn mlaen, fel pan ddigwyddodd iddo ddyfod i fyny i wyneb y dwfr yn amser dydd fe welodd yr haul. Felly fe aeth i lawr, a dywedodd wrth y lleill fod y byd yn y cyffredin yn oleu, ond bod yna un goleuni mawr yn ei achosi i gyd. Ar hyny hwy a'u lladdasant am aflonyddu'r wladwriaeth. Ystyrient hi'n annuwiol i amheu fod y byd yn y cyffredin yn oleu, a bod yna un goleuni mawr yn ei achosi i gyd. A bu dadleuon mawr rhyngddynt yn nghylch pa fodd y daethant i wybod hyn. Wedi hyny daeth un arall mor bell yn y blaen fel pan ddigwyddodd ddyfod i wyneb dwfr yn amser nos fe welodd y ser. Felly, fe aeth i lawr, a dywedodd wrth y lleill fod y byd yn y cyffredin yn dywyll, ond er hyny fod yna luaws o oleuadau bychain ynddo. A lladdasant y rhai hyny hefyd am gyhoeddi athrawiaethau anwireddus; ac ar ol hyny bu ymraniad rhyngddynt, a rhanwyd y Trilobiaid yn ddwy blaid, un yn dal un peth, a'r llall yn dal peth arall, hyd nes y daeth amser pan y gwelodd llawer o honynt nas gallasai fod un amheuaeth yn nghylch y mater.—*Y diweddar Brofeswr William Kingdon Clifford.*

SOSIALAETH.—Adrodda Dr. Stubbs, esgob Truro, iddo fyned unwaith pan oedd yn byw yn Lerpwl at farsiandwr cyfoethog i geisio tanysgrifiad. "Dywedir wrthyf eich bod yn Sosialydd," ebe'r marsiandwr, "beth yw ystyr hyny?" Atebodd yntau fod yna ddau fath o Sosialaeth—Sosialaeth Gwleidyddol a Sosialaeth Cristionogol. Stori un yw, "Y peth sydd eiddoch chwi sydd eiddof fi," a stori y llall yw, "Y peth sydd eiddof fi sydd eiddoch chwi." Ac meddai'r marsiandwr, "Yr wyf wedi cwrdd â llawer o'r math cyntaf, ond dim un erioed o'r ail fath. Hwriwch, dyma ugain punt i chwi!"

DUWINYDDIAETH EMYNAU. — Y mae'r Parch. Alun Jones wedi cyhoeddi llyfryn swllt ar Dduwinyddiaeth Emynau, a dyma'r pynciau'r y cenir arnynt: 1. Y Drindod; 2. Y Cyfamod Tragwyddol; 3. Yr Arfaeth; 4. Rhagluniaeth; 5. Yr Ymgnawdoliad; 6. Y Prynedigaeth; 7. Yr Yspryd Glan a'i Ddoniau.—Nid ydym wedi deall erioed beth sydd a fyno emynau a phynciau o'r fath. Nid oes rhith o grefydd yn perthyn i'r naill na'r llall o honynt. Crefydd, nid duwinyddiaeth ddylai fod mewn emyn. Cynyrch yr yspryd yw crefydd, a dylai fod fel y dôn yn rhydd oddiwrth bob peth fo'n awgrymu gwahaniaeth barn.

J. D. Lewis, Ager Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssul.

CHRISTR. THOMAS, & BROS, Ltd., Bristol,

Have the Leading Reputation in Wales for their

HOUSEHOLD & TOILET SOAPS

THE FAVOURITE QUALITY IS

CHRISTR. THOMAS, & BROS., TD., BEST PAE

Which, as well as the other sorts, can be obtained, wholesale and retail, from

T. E. JONES & Co., LLANDYSSUL.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS,

General Draper, Milliner, Outfitter, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

A well Selected Stock of Capes, Jackets and Millinery always on hand. Juvenile and Boys' Suits a Speciality.

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

Funeral Wreaths, Crosses, Anchors, Harps, Lyres,

And other designs.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

HARRY COYSH,

FLORIST AND SEEDSMAN, . .

NOTT SQ., CARMARTHEN.

Telegrams—Harry Coysh, Carmarthen

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq. W. A. Sharpe, Esq., Mrs. W. A. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

Ben Evans & Co's Series of Specimen Furnished Rooms

afford Practical Assistance in the task of Furniture Selecting. . .

The disappointment so frequently felt at the incongruities, which are practically inevitable when the several items are bought 'piecemeal,' is avoided and a great deal of time is saved by seeing the various articles placed in position at the time of purchase. . . . . .

BEN EVANS & Co., Ltd.

'THE HOUSE FOR QUALITY.'

Cabinet Furniture Dept.,
Caer Street,

Swansea.

Telegrams—Evans, Swansea. Telephone: No. 28.